# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 13EG MEHEFIN, 2024**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00YB

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 5 Mehefin 2024)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (12)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Menna Baines | R Medwyn Hughes |
| Rheinallt Puw | Dewi Jones |
| Linda Ann Jones | Linda Morgan |
| Gwynfor Owen | Meryl Roberts |
| Einir Wyn Williams | Jina Gwyrfai |
| Sedd Wag | John Pughe |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Jones | Anwen J. Davies |
| Eryl Jones-Williams | Beth Lawton |
| Angela Russell | |

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd
Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorydd Elin Walker Jones
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan

# R H A G L E N


**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2024/25.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2024/25.

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION** 5 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 11[eg] o Ebrill, 2024 fel rhai cywir.

**7. DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DOLS)** 16 - 23

I drafod gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu rhag colli Rhyddid.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2023/24** 24 - 43

I roi cyfle i aelodau graffu gwaith y Panel Strategol Diogelu dros 2023/24.

**9. DATBLYGU DARPARIAETH BERSWYL I BLANT MEWN GOFAL MEWN GRŴP BYCHAN** 44 - 49

Mae datblygiad darpariaeth breswyl i blant mewn gofal drwy gynllunio cynllun cartrefi grŵp bychan angen ei graffu oherwydd bod y prosiect yn rhan o Gynllun y Cyngor.

**10. GRŴP CRAFFU CYD-BWYLLGOR IECHYD A GOFAL CANOLBARTH CYMRU** 50 - 51

I ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.

**11. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2024/25** 52 - 54

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 i'w mabwysiadu.

**12. CYFARFODYDD HERIO PERFFORMIAD OEDOLION, IECHYD A LLESIANT PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** 55

I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**
**11/04/24**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:-** Beth Lawton (Cadeirydd), Menna Baines, Jina Gwyrfai, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Eryl Jones-Williams, Linda Morgan, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell ac Einir Wyn Williams.

**Swyddogion yn bresennol:-** Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Eraill yn bresennol:-** Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd), Huw Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) ac Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau - Plant a Chefnogi Teuluoedd).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:-** Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol - Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Geraint Wyn Jones (Swyddog Gofal Cwsmer - Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**- Y Cynghorydd Beca Brown (Aelod Cabinet Addysg), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Delyth Gibbard (Uwch Athrawes Arbenigol Cyfathrebu a Rhyngweithio), Lucy Hemmings (Arweinydd Ymarfer Awtistiaeth) ac Einir Wyn Peters (Uwch Seicolegydd Addysgol).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorwyr Anwen Davies, Elwyn Jones a Linda Ann Jones.

Dymunwyd gwellhad buan i aelodau sy’n wael ar hyn o bryd.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Gwynfor Owen fuddiant personol yn eitem 7 oherwydd bod ei fab yn awtistig.

Roedd o’r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Dim i’w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, 2024 fel rhai cywir.

## 5. GWEITHDREFN CWYNION, YMHOLIADAU A DIOLCHIADAU AR GYFER 2022-23 – ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AC ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT

Croesawyd yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r swyddogion i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd - Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2022-23. Gwahoddwyd y pwyllgor i graffu'r trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

Gosododd y ddau Aelod Cabinet y cyd-destun gan ddiolch i staff y ddwy adran am eu hymroddiad wrth ymateb i gwynion a diolchiadau gan y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaeth. Yna rhoddodd y Swyddog Gofal Cwsmer – Oedolion Iechyd a Llesiant drosolwg o gynnwys yr adroddiad.

Yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Gofynnwyd am roi gwybod i'r aelodau os oes tueddiad o rywbeth yn mynd o'i le, yn hytrach na bod yr aelodau yn clywed am y cwynion hynny ar y cyfryngau, neu gan aelodau o'r cyhoedd. Mewn ymateb, nodwyd :-

- Y dymunid osgoi sefyllfaoedd o'r fath ac y ceisid sicrhau bod y cyswllt â Thîm y Wasg y Cyngor yn gweithio mor hwylus â phosib' o safbwynt rhoi gwybod iddynt am unrhyw beth sy'n debygol o godi.
- Yn amlwg, bod enghreifftiau yn codi weithiau lle nad oedd hynny wedi digwydd, a bod wastad lle i wella.

Nodwyd ei bod yn gysur gweld bod yna weithdrefn glir ar gyfer cyflwyno cŵyn ac ar gyfer delio â chŵyn, ond awgrymwyd bod dweud wrth bobl na ellir derbyn eu cŵyn ar y pryd oherwydd bod ymchwiliad arall ar y gweill yn achosi mwy o bryder i'r bobl hynny, sydd eisoes wedi cyrraedd pen eu tennyn. Holwyd beth oedd y trefniadau ar gyfer ail-gyflwyno cŵyn o'r fath wedi i ymchwiliad arall ddod i ben. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Na ellid yn gyfreithiol ymateb i gŵyn os oes ymchwiliad, e.e. ymchwiliad Heddlu, ar y gweill oherwydd y gallai hynny ragfarnu unrhyw ymchwiliad arall.
- Bod y person sy'n cyflwyno cŵyn yn derbyn taflen yn egluro nad oes modd ymchwilio i gŵyn yn syth mewn rhai achosion ac yn eu gwahodd i ail-gyflwyno'r gŵyn unwaith y bydd unrhyw ymchwiliad arall wedi dod i ben.
- Mewn rhai achosion, e.e. ymchwiliad o dan y drefn Diogelu, bod modd darganfod bod y broses wedi dod i ben a chynnig i'r achwynydd ail-gyflwyno ei gŵyn. Weithiau hefyd, gallai proses oedd wedi cychwyn eisoes fod yn ddigonol i ddatrys mater fel nad oedd angen ail-godi cŵyn.

Nodwyd mai'r ddau ganfyddiad sy'n dod allan o'r adroddiad eleni yw bod disgwyliadau teuluoedd o'r gwasanaeth yn hynod o uchel a bod angen cyfathrebu clir a chyson. Holwyd a oedd modd rheoli disgwyliadau drwy roi gwybod i deuluoedd o'r cychwyn nad oes modd i'r Cyngor gynnig popeth iddynt. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y credid bod hyn yn berthnasol i'r Adran Plant oherwydd ymyrraeth y Gwasanaeth ym mywydau teuluoedd ar faterion diogelu ynghyd â chymhlethdod y prosesau.
- O ran materion diogelu, derbynnid cwynion bod gwarcheidwaeth plant yn ôl yn y teuluoedd, ac ati, ond os oedd yr Adran wedi mynd drwy'r holl weithdrefnau a'r holl bosibiliadau, roedd yn fater o gyfathrebu hynny gyda'r teulu.
- Ei bod yn amhosib' dweud ar gychwyn ymchwiliad diogelu sut mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaenau a beth fydd canlyniad hynny. Gan hynny, roedd yn fater o gyfathrebu â theuluoedd mewn ffordd sy'n sensitif i'w hanghenion hwy, gan wybod y byddent yn siomedig ar adegau, ac wrth gwrs, yn dymuno cyflwyno cwynion am hynny.
- Y ceisid datrys cwynion o'r fath ar y cam cyntaf drwy gyfarfod â'r teuluoedd i egluro beth sy'n digwydd a'r rhesymau dros hynny.

Nodwyd ei bod yn dda gweld nad oedd unrhyw achosion wedi'u cyfeirio at yr Ombwdsmon, a bod yr holl gwynion wedi'u datrys yn y cam cyntaf.

Nodwyd bod nifer y cwynion yn isel iawn o ystyried nifer yr achosion mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymdrin â hwy, ond mynegwyd peth pryder ynglŷn â'r diffiniad o gŵyn o gofio bod yr aelodau hefyd yn derbyn cwynion gan eu hetholwyr (eithr nid yn gwynion ffurfiol) ac yn eu cyfeirio at yr adrannau. Diolchwyd i'r swyddogion am ddarparu atebion i'r cwynion hynny a nodwyd bod hyn yn gam mawr ymlaen i atal cŵyn neu ymholiad anffurfiol rhag mynd yn gŵyn ffurfiol. Nodwyd hefyd bod disgwyliadau pobl yn sicr o fod yn uchel o feddwl eu bod yn bryderus am eu teuluoedd neu hwy'u hunain fel unigolion. Mewn ymateb i'r sylw ynglŷn â'r diffiniad o gŵyn, nodwyd:-

- Bod diffiniad o gŵyn swyddogol yn y rheoliadau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.
- Y derbynnid llawer o ymholiadau ynglŷn â statws y gwasanaeth a ddarperir i unigolyn, ayb, gan aelodau seneddol a chynghorwyr ac y darperid ymateb iddynt yn syth.
- Bod modd i deuluoedd godi cŵyn ffurfiol drwy eu cynghorydd lleol.

Nododd aelod iddo dderbyn caniatâd y Swyddog Monitro i gyfeirio at ei brofiad personol o fynd drwy'r broses gwynion fel unigolyn yn y gorffennol. Nododd:-

- Gan nad oedd yn fodlon gyda'r ymateb i'w gŵyn, iddo wneud cais i fynd i gam 2, sef i gael ymchwilydd annibynnol.
- Bod yr unig ymchwilydd Cymraeg y llwyddodd i ddod o hyd iddo yn rhywun a arferai weithio i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd, ac a oedd, o bosib', â pherthynas agos â rhai aelodau o'r Tîm.
- Gan nad oedd yr ymateb a dderbyniodd i'r ymchwiliad yn wahanol iawn i'r ateb a gafodd i gam 1, iddo gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon.
- Y cafodd ar ddeall bod yr Ombwdsmon ond yn fodlon edrych i mewn i gŵyn petai'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud eu bod yn cynnig y gwasanaeth yn y lle cyntaf, ond eto ddim yn gwneud hynny. Os nad oedd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dweud eu bod yn cynnig y gwasanaeth, nid oedd sail i fynd â'r gŵyn ymhellach.

- Ei fod yn hynod siomedig nad oedd yn bosib' mynd â'r gŵyn ymhellach a'i fod yn awyddus i rannu ei brofiad personol gan ei bod yn debygol mai dyma oedd profiad eraill hefyd.
- Er nad oedd ganddo ond canmoliaeth i'r ffordd y bu i'r Swyddog Gofal Cwsmer ymdrin ag ef ar y pryd, iddo gael y teimlad mai ceisio amddiffyn y Gwasanaeth oedd y prif ymateb i'r gŵyn, yn hytrach nag edrych sut y gellir gwasanaethu'r cyhoedd yn well yn y dyfodol.

Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y dymunid rhoi sicrwydd i'r aelod bod y Gwasanaeth Plant yn cymryd pob cŵyn o ddifri' a bod y Pennaeth yn ymwybodol o bob un cŵyn o fewn y gwasanaeth ac yn cael mewnbwn i ymateb i achwynwyr.
- Bod y Pennaeth hefyd yn cael ei chyfweld fel rhan o gwynion cam 2 gan ymchwilwyr annibynnol, ac o ran argaeledd siaradwyr Cymraeg i ymchwilio i gwynion, ei bod yn gwybod am tua 5 ymchwilydd Cymraeg oedd wedi bod yn ymwneud â chwynion y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Derbynnid, fodd bynnag, y gallai'r sefyllfa fod wedi bod yn wahanol yn ystod y cyfnod Cofid pan oedd yr aelod yn mynd drwy'r broses.
- Bod y Gwasanaeth Plant yn ceisio datrys pob cŵyn ar y camau cyntaf ac yn teimlo eu bod wedi methu os yw cŵyn wedi cyrraedd yr Ombwdsmon.
- Na chredid bod y Gwasanaeth Plant yn ymddwyn yn amddiffynnol a bob pawb bob amser yn barod i ddysgu o'r gwersi a gwella gwasanaethau.
- Nad oedd yna fawr o dueddiadau yn amlygu eu hunain yn y Gwasanaeth Plant gan fod yr achosion i gyd mor unigol ac unigryw a'r cwynion yn ymwneud â phethau eithaf manwl ynglŷn â bywydau pobl.
- Y ceisid gwella cyfathrebu yn barhaus drwy'r timau gwaith cymdeithasol a'r gweithwyr cymdeithasol sy'n ymwneud â theuluoedd.
- Bod trefniadau'r Gwasanaeth Oedolion yn ymdebygu i drefniadau'r Gwasanaeth Plant.

Nodwyd bod nifer o'r cwynion yn ymwneud â diffyg cyfathrebu clir neu gyson a holwyd beth y bwriadai'r ddwy adran ei wneud i atal hyn rhag codi bob tro. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Nad oedd y Gwasanaeth Oedolion yn derbyn llawer o gwynion ynglŷn â diffyg cyfathrebu.
- O ran y Gwasanaeth Plant, y credid bod hyn yn ymwneud â'r ffaith bod teuluoedd yn gallu bod yn siomedig nad yw'r negeseuon sy'n cael eu cyfleu iddynt wedi'u cyfathrebu iddynt o'r dechrau, ond fel y nodwyd mewn ymateb i gwestiwn blaenorol, roedd yn amhosib' dweud ar gychwyn ymchwiliad beth fyddai canlyniad hynny.
- Petai yna bryder gwirioneddol bod gwallau wedi bod mewn cyfathrebu, byddai Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Plant yn trafod y materion hynny. Hefyd byddai cyfarfod yn cael ei gynnal gyda'r gweithwr cymdeithasol unigol a'i reolwr i weld oes yna gyfleoedd hyfforddiant pellach neu godi ymwybyddiaeth pellach sydd ei angen ar y gweithiwr, gan hefyd ystyried oes yna faterion disgyblaeth sydd angen eu cyfarch yn deillio o unrhyw gwynion sydd wedi'u cadarnhau.

- Gan fod natur cwynion y Gwasanaeth Plant yn ymwneud â gweithwyr unigol yn hytrach na thimau penodol, bod rhaid edrych ar bob un yn unigol a cheisio cyfarch y materion sy'n berthnasol i'r gŵyn ar yr achos penodol hwnnw.

Holwyd pam bod nifer y cwynion wedi cynyddu gymaint yn y flwyddyn ddiwethaf. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod nifer cwynion y Gwasanaeth Oedolion yn is yn 2020/21 yn ystod y cyfnodau clo ac wedi codi yn ôl i'w lefelau arferol ers hynny. Roedd tabl 2 o'r adroddiad yn nodi bod niferoedd cwynion ffurfiol wedi lleihau o 33 yn ystod 2021/22 i 24 yn ystod 2022/23, ac er nad oedd adroddiad 2023/24 wedi'i baratoi eto, ni ragwelid y byddai'r ffigurau lawer gwahanol i hynny.
- Bod y tabl yn yr adroddiad yn dangos bod y Gwasanaeth Plant hefyd wedi derbyn llai o gwynion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er hynny, teimlid bod cwynion i'w croesawu oherwydd bod yna bob amser le i wella a datblygu.
- O bosib' y byddai nifer cwynion cam 2 y Gwasanaeth Plant yn uwch eleni. Roedd 3 ar y gweill ar hyn o bryd ac un wedi'i gwblhau ychydig y tu allan i'r ffenestr adrodd bresennol.
- Y teimlid bod nifer yr ymholiadau gan aelodau seneddol a chynghorwyr ar ran eu hetholwyr ar gynnydd a phwysleisiwyd y gallai darparu ymateb cyflawn ar y cam hwn atal ymholiad rhag datblygu'n gŵyn ffurfiol.
- Bod y Gwasanaeth hefyd yn ymdrin â nifer o faterion sydd ddim yn cyrraedd cam 1 oherwydd bod modd eu datrys i fodlonrwydd unigolion y tu allan i'r drefn gwynion ffurfiol.

Awgrymwyd mai prinder staff yn y Gwasanaeth Oedolion oedd wrth wraidd y rhan helaethaf o'r cwynion. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y credid bod natur y cwynion yn deillio o ddiffyg o ran y gwasanaethau rheng flaen o ganlyniad i'r heriau recriwtio a chadw staff, boed hynny yn y maes gofal cartref neu yn y maes gofal oedolion yn fwy cyffredinol hefyd o ran cartrefi preswyl.
- Bod nifer y cwynion ynghylch darpariaeth gofal cartref wedi bod yn uwch yn ystod chwarteri olaf 2022/23 a bod hynny'n cyd-fynd â symudiad darparwyr gofal o'r ardal yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Bod y sefyllfa'n parhau'n heriol o ran y rhestrau aros am ofal cartref, yn arbennig mewn rhai rhannau o'r sir, ond bod y Gwasanaeth yn gwneud popeth o fewn eu gallu i roi trefniadau mewn lle i geisio cadw'r staff presennol a recriwtio staff o'r newydd, gan gynnwys cynnal ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus.

Nodwyd ei bod yn galonogol deall bod yr ymgyrchoedd recriwtio wedi bod yn llwyddiannus a phwysleisiwyd pwysigrwydd parhau i'w cynnal.

Holwyd pa hawl oedd gan ofalwyr i gyflwyno cŵyn ar ran defnyddwyr gwasanaeth, o gofio bod yr unigolion hynny yn aml iawn hefo capasiti ond yn ddim yn hoffi cwyno. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Yn gyffredinol, bod rhaid gwarchod data personol yr unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth ac ni ellid trafod y gwasanaethau mae'r defnyddiwr yn ei dderbyn hefo rhywun arall heb ganiatâd.

- Petai gan unigolyn y capasiti i benderfynu gwneud cŵyn, y gofynnid iddyn nhw wneud hynny eu hunain neu roi caniatâd clir i rywun arall wneud cŵyn ar eu rhan.

Nodwyd bod yr ymateb yn profi pa mor anodd yw gwneud cŵyn yn erbyn y gwasanaeth. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod cyfrifoldeb ar bawb sy'n gweithio yn y maes i adrodd ar unrhyw fater diogelu y mae ganddyn nhw bryder yn ei gylch a bod sefyllfaoedd wedi codi lle mae'r unigolyn sydd wedi codi'r achos diogelu wedi gorfod rhannu hynny gyda'r unigolyn sydd, efallai, yn derbyn y gwasanaeth, gan egluro pam bod y mater yn cael ei godi.
- Bod y cyfathrebu yn amlwg yn allweddol a bod y sefyllfa yn gallu bod yn sensitif hefyd.
- Bod y sefyllfa o ran derbyn cwynion a gwneud y gorau o gwynion a dysgu ohonynt yn hanfodol bwysig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ond ar yr un pryd, ei bod yn anodd iawn cael y balans cywir mewn sefyllfa sensitif gyda phobl fregus dros ben, a sut mae hyrwyddo pobl i wneud cwynion a sut mae cynnig hynny heb or-gynnig.
- Ei bod yn bwysig bod gennym weithlu effeithiol a chymwys i wneud y gwaith mewn ffordd sensitif.
- Bod pobl ofn cwyno yn aml, ond credid bod derbyn cwynion yn gwneud lles i'r Gwasanaeth, nid yn unig o safbwynt gwyleidd-dra, ond hefyd o ran dysgu a galluogi'r timau i ddarparu'r gwasanaeth gorau bosib'.

Croesawyd y ffaith bod nifer y cwynion wedi gostwng llynedd a nodwyd bod y nifer yn eithaf bychan o ystyried faint o achosion mae'r adrannau yn delio â hwy. Nodwyd nad oedd yn syndod deall bod thema'n dechrau ymddangos o ran cwynion ynglŷn â gofal cartref, o ystyried y problemau recriwtio yn y maes, ac awgrymwyd bod hyn yn rhywbeth i gadw golwg arno. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r enghreifftiau o ddiolchiadau a chanmoliaeth yn yr adroddiad a nodwyd bod hyn yn dangos bod yna wyneb dynol i'r gwasanaethau sy'n cael eu cynnig. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Y dymunid diolch am y gwerthfawrogiad o'r diolchiadau yn yr adroddiad gan ei bod yn hollbwysig bod gwaith caled y gweithlu mewn sefyllfaoedd anodd yn cael ei gydnabod.
- O ran y gostyngiad yn nifer y cwynion, nad peidio derbyn cwynion oedd y nod, eithr galluogi pobl i gwyno gymaint ag sy'n briodol.

Cyfeiriwyd at y sylw yn yr adroddiad y derbyniwyd 3 o gwynion ynglŷn ag ansawdd gwaith un o'r darparwyr allanol a gomisiynwyd i ddarparu gwasanaethau Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaeth, a holwyd beth oedd yr Uned Fusnes wedi'i wneud i sicrhau bod yr ansawdd wedi gwella. Mewn ymateb, nodwyd bod y cytundeb gyda'r cwmni wedi dod i ben a bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n fewnol bellach.

Ar derfyn y drafodaeth, eglurwyd ei bod yn arferol i gyflwyno'r eitem hon i'r pwyllgor craffu ym mis Medi bob blwyddyn. Ymddiheurwyd bod adroddiad 2022-23 wedi cyrraedd yn hwyr a nodwyd y byddai adroddiad 2023-24 ar gael yn eithaf buan ar gyfer ystyriaeth yn y misoedd nesaf.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan nodi ei bod yn braf gweld y diolchiadau, a bod y pwyllgor yn craffu Adroddiad Blynyddol y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau ar gyfer 2023-24 pan fydd yn barod yn y misoedd nesaf.**

**6. GWASANAETH EGWYL FER (TÎM INTEGREDIG DERWEN)**

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd ar y gwasanaeth Egwyl Fer (Tîm Integredig Derwen). Gwahoddwyd y pwyllgor i graffu cynnwys yr adroddiad er mwyn cael sicrwydd bod darpariaeth addas ar gael i bawb sydd angen y gwasanaeth.

Gosododd yr Aelod Cabinet y cyd-destun gan ddiolch i'r holl staff am eu gwaith diflino a'u brwdfrydedd a'u cariad wrth weithio hefo'r plant mwyaf bregus yng Ngwynedd. Ymhelaethodd y Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gynnwys yr adroddiad ac yna rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd bod yr adroddiad a'r cyflwyniad yn amlygu'r galw anferthol am y gwasanaeth egwyl fer, a'i bod yn amlwg bod yna waith gwych iawn a hanfodol yn mynd yn ei flaen.

Tynnwyd sylw at yr angen am wasanaeth egwyl fer ar gyfer oedolion yn ogystal, ond eglurwyd bod yr eitem hon yn trafod y ddarpariaeth ar gyfer plant yn unig.

Mynegwyd pryder o ddeall fod nifer y gwirfoddolwyr wedi gostwng o 20 cyn y cyfnod Cofid i 3 erbyn hyn. Holwyd beth sy'n cael ei wneud i geisio recriwtio rhagor o wirfoddolwyr, a gofynnwyd oedd modd defnyddio'r gwirfoddolwyr presennol mewn ymdrech i geisio denu rhagor. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Gan na fu'n bosib' parhau â'r cynllun egwyl fer dros y cyfnodau clo, y collwyd nifer o wirfoddolwyr wrth i bobl symud yn eu blaenau.
- Bod y Swyddog Egwyl Fer yn cyfarfod yn rheolaidd â Phrifysgol Bangor, sef y prif gysylltiad o ran yr ymgyrchoedd recriwtio.
- Y cytunid â'r sylw ynglŷn â defnyddio gwirfoddolwyr presennol, ond na ellid gwneud mwy nag amlygu bod y cyfleoedd yn bodoli a bod mor rhagweithiol â phosib' o safbwynt ymateb i unrhyw ymholiadau.
- Bod 5 darpar wirfoddolwr yn mynd drwy'r broses DBS ar hyn o bryd a mawr obeithid y byddai'r unigolion hyn ar gael i'r gwasanaeth yn fuan er mwyn gwneud gwahaniaeth.
- O bosib' bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar awydd pobl i roi eu hunain ymlaen i wirfoddoli, ond yn sicr byddai'r Gwasanaeth yn dyfalbarhau i geisio cynyddu'r nifer.

Holwyd pa wasanaeth a gynigir i deuluoedd plant ag anghenion llai dwys ynghyd â beth yw'r rhagolygon ar gyfer y dyfodol o ystyried bod y galw yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Gofynnwyd hefyd a ellir bod yn hyderus y byddwn yn gallu cwrdd â'r anghenion dwys, heb son am yr anghenion eraill, yn wyneb sefyllfa gyllidol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Bod y cwestiynau yn adlewyrchu'r heriau mae'r Gwasanaeth yn eu hwynebu ac yn amlwg yn eu trafod o ran datblygiad, ayb, a sut i addasu'r gwasanaeth i gyfarch yr anghenion sy'n codi.

- Bod y ddarpariaeth bresennol yn cyfarch amrywiaeth o anghenion, ac nid yr anghenion uwch yn unig, gyda'r anghenion uwch yn tueddu i fod yn egwyl fer yn Hafan y Sêr a mwy o oriau cefnogol efallai na'r anghenion is.
- Bod amrywiaeth o anghenion yn cael eu darparu yn yr oriau cefnogol a bod ceisio dadansoddi rhywfaint o hynny yn ddarn o waith na lwyddwyd i'w wneud efallai ar gyfer yr adroddiad hwn, ond y gellid ei wneud mae'n debyg gyda rhywfaint o ymdrech.
- Bod gweithgareddau'r gwasanaeth gwirfoddoli yn benodol ar gyfer y lefelau is o anghenion, gyda llai o ddibyniaeth ar, efallai, asesiad gweithiwr cymdeithasol i fod yn darparu hynny, tra bod yr asesiad gofal a chefnogaeth gan weithiwr cymdeithasol yn rhan allweddol o'r gofyn yng nghyswllt y gwasanaethau dros nos a'r gwasanaethau cefnogol mwy dwys.
- Bod cyfarch yr anghenion i'r dyfodol yn mynd i fod yn her, yn enwedig o ystyried sefyllfa ariannol y Cyngor, a petai yna asesiadau sy'n dangos yr angen, bod cyfrifoldeb ar y Gwasanaeth i ddarparu hynny rhywsut. Dyma'r her a wynebir o ran cynllunio gwasanaethau ac ni ellid ateb gydag unrhyw sicrwydd o safbwynt sut mae'r cynnydd yn y galw yn mynd i newid eto.

Holwyd a oes yna restr aros i fynd i Hafan y Sêr, ac os felly, am ba hyd mae unigolion ar y rhestr aros honno. Gofynnwyd hefyd ydi Hafan y Sêr yn llawn bellach yn dilyn Cofid. Mewn ymateb, nodwyd:-

- Er bod rheolwr Hafan y Sêr yn ceisio uchafu'r niferoedd sy'n gallu aros yn yr uned bob nos, ei bod yn her i lenwi'r 6 gwely yn yr uned drwy'r adeg, ond nid oedd hynny oherwydd rhesymau staffio. Roedd staffio'r uned wedi bod yn eithaf sefydlog bob amser, ac yn ogystal â'r staff ar gytundebau sefydlog, roedd yna hefyd banc o staff wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd unigol.
- Bod rhaid amrywio staffio i gyd-fynd ag anghenion y plant, e.e. roedd rhai plant ddim yn cysgu drwy'r nos a rhai plant angen 2 aelod staff ar eu cyfer, ac roedd hyn oll yn rhan o'r gwaith cynllunio wrth dderbyn plentyn i'r uned.
- Mai'r ffactor hwn oedd weithiau'n arwain at y ffaith bod plentyn yn gorfod aros am le yn yr uned, gan fod rhaid ystyried pa blant eraill fydd yn aros yn yr uned ar yr un pryd â'r plentyn yna, a beth yw anghenion yr holl blant ac ydi'r anghenion hynny yn cyd-blethu hefo'i gilydd.
- Y gellid cael anghenion eithaf heriol gydag ambell blentyn sy'n gallu ansefydlogi plant eraill, ac roedd hynny i gyd yn nwylo'r rheolwr o safbwynt y gwaith paratoi.
- Bod y rhestr aros am le dros nos yn yr uned yn gallu bod oddeutu 3 mis, ond bod hynny'n cynnwys cyflwyno'r plentyn yn raddol i'r uned yn ystod y cyfnod.
- O ran oedrannau'r plant sy'n agored i Derwen yn gyffredinol, bod mwy o blant ifanc yn dod i mewn nag sydd o blant hŷn yn gadael ar hyn o bryd. Credid bod yr un peth yn wir am Hafan y Sêr, ac roedd hyn yn mynd i gael effaith ar y capasiti a'r trosiant a'r rhestrau aros yn y diwedd. Roedd hyn hefyd yn her feunyddiol o safbwynt cynllunio addasiadau, sy'n cael eu cynllunio fisoedd ymlaen llaw.
- Bod y Gwasanaeth yn falch iawn o'r ddarpariaeth yn Hafan y Sêr, ond bod angen rhagor o ddarpariaeth o'r fath i ddiwallu'r angen.
- Bod y budd mae'r teuluoedd yn cael o'r plentyn yn treulio noson neu ddwy yn yr uned yn enfawr, ac yn cadw teuluoedd hefo'i gilydd.
- O ran capasiti yn gyffredinol a'r rhestrau aros, bod teuluoedd yn gallu mynd trwy gyfnod o argyfwng lle mae newidiadau'n digwydd ac ymddygiad y plentyn, o bosib', yn fwy heriol nag arfer, a bod yr uned yn ceisio'u gorau i ymateb i sefyllfaoedd o'r fath drwy gynnig ac addasu'r arosiadau.

Yn ei sylwadau cloi, nododd yr Aelod Cabinet:-

- Iddi gael sgwrs gyda Swyddog Gwirfoddoli Prifysgol Bangor ynglŷn â'r mater hwn a bod yna drafodaethau yn mynd rhagddynt i gefnogi gwaith ffantastig y Swyddog Egwyl Fer yn ceisio recriwtio mwy o wirfoddolwyr.
- Bod y Cabinet wedi gwarchod cyllid y math hwn o ddarpariaeth ar gyfer y plant mwyaf bregus hyd yn hyn, ond bod y Cyngor yn wynebu heriau cwbl ddigynsail dros y blynyddoedd i ddod. Gan hynny, byddai'n gwerthfawrogi cefnogaeth y pwyllgor i sicrhau nad ydi'r plant yma'n colli ceiniog o'r ddarpariaeth a byddai hithau'n gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau nad ydi'r ddarpariaeth yn wynebu toriadau, o gofio'r cyd-destun.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad gan ddiolch i bawb sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Egwyl Fer, a mynegi gobaith y bydd y cyllid ar gael i barhau i gynnig y gwasanaeth i bawb sydd ei angen fel mae amser yn mynd yn ei flaen.**

## 7. GRŴP TASG A GORFFEN CYNLLUN AWTISTIAETH

Cyflwynwyd – adroddiad Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen Cynllun Awtistiaeth, y Cynghorydd Elwyn Jones, yn gwahodd y pwyllgor i graffu canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen.

Yn absenoldeb y Cynghorydd Elwyn Jones o'r cyfarfod, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith. Nodwyd bod Cadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen yn dymuno:-

- Diolch i'r holl swyddogion, nid yn unig am eu gwaith yn paratoi cyn cyfarfod y grŵp tasg, ond hefyd am eu cyfraniad yn ystod y cyfarfod a'u hatebion clir a gonest.
- Diolch i'w gyd-gynghorwyr am y gwaith o baratoi cyn y cyfarfod a chyflwyno cwestiynau mor dda yn ystod y cyfarfod, a'i fod o'r farn bod yna sicrhau dealltwriaeth glir wedi dod yn sgil y cwestiynu a'r ymatebion cadarn.
- Pwysleisio bod gan bob un o'r aelodau hefyd rôl allweddol i ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ar gael yn y maes awtistiaeth.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nododd aelod o'r Grŵp Tasg a Gorffen:-

- Fod profiad personol a mewnwelediad proffesiynol y Cynghorwyr Dawn Jones a Gwynfor Owen wedi llywio trafodaethau'r Grŵp, a diolchodd iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr.
- Y bu'n fraint cydweithio a gweld y gwaith sy'n mynd i mewn i'r maes awtistiaeth ac y cafwyd tryloywder clir a thrafodaeth onest gyda'r swyddogion.
- Y dymunai dynnu sylw'n benodol at argymhelliad 3, sy'n ymwneud â sicrhau bod datblygiad unrhyw ysgol newydd neu addasiadau i unrhyw ysgol i'r dyfodol yn addas i unigolion gydag awtistiaeth, ac argymhelliad 4, sy'n galw am ddiweddariad i'r pwyllgor ymhen 12 mis pellach o weithredu i sicrhau fod cynnydd yn parhau i ddigwydd.

Nododd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol:-

- Bod hwn yn adroddiad ardderchog a'i fod yn falch bod y Grŵp wedi mynd i'r afael â'r pwnc hynod bwysig yma.
- Bod y maes awtistiaeth yn faes sy'n cynyddu o ran y niferoedd o bobl sydd angen cymorth ac yn faes sy'n cynyddu o ran cymhlethdod hefyd.

- Mai un o'r ffactorau heriol yw mai grant sy'n talu am ganran sylweddol o'r Tîm Awtistiaeth newydd, a gan nad oes sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn diogelu'r arian yma i'r dyfodol, bod angen diogelu'r Cyngor a'r bobl sy'n derbyn y gwasanaethau drwy edrych ar hynny.
- Yn sicr bod angen cymryd cyngor wrth gynllunio unrhyw adeilad newydd neu addasiad i unrhyw un o adeiladau'r Cyngor neu ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i unigolion gydag awtistiaeth, ond y byddai'n awgrymu diwygio geiriad argymhelliad 3 fel a ganlyn er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod gan yr Adran Addysg eu tîm eu hunain sydd â'r arbenigedd penodol o ran adeiladau ysgolion, a hefyd i amlygu'r cyfrifoldebau yn glir:-

  Argymell fod y Pwyllgor Craffu, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, yn cysylltu gyda'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo i sicrhau mewnbwn gan y _Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol_ i ddatblygiad unrhyw ysgol newydd neu addasiadau i unrhyw ysgol i'r dyfodol er mwyn ei gwneud yn addas i unigolion gydag awtistiaeth e.e. gofod tawel, gallu lleihau'r golau ayyb. Byddai'n fuddiol sefydlu'r egwyddor o sicrhau mewnbwn gan y Tîm Awtistiaeth (_Adran Plant ac Oedolion_) ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd neu addasiad i unrhyw adeilad arall.

Croesawyd gwaith y Grŵp Tasg a Gorffen a nodwyd bod hyn yn un enghraifft o'r hyn mae'r Pwyllgor Craffu Gofal wedi'i wneud i sicrhau y rhoddir sylw priodol i bobl ag awtistiaeth. Diolchwyd i bawb am y gwaith ac yn enwedig y cynghorwyr hynny oedd wedi mynnu bod sylw priodol yn cael ei roi i'r maes awtistiaeth yn dilyn derbyn cŵyn am y gwasanaeth rai blynyddoedd yn ôl.

Nododd yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd:-

- Y byddai argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen yn fuddiol iawn a'i bod yn cytuno â sylwadau'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn hapus i gefnogi mewn unrhyw ffordd y gallai.
- Y byddai'n annog yr aelodau i fynd ar y Bws Awtistiaeth a bod yna drafodaethau wedi'u cynnal ynglŷn â chynnal hyfforddiant y tu hwnt i'r Bws Awtistiaeth ar sut i gefnogi staff er mwyn cefnogi teuluoedd lle mae plentyn yn aros am ddiagnosis neu hefo diagnosis.

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg:-

- Ei bod hithau'n teimlo'n gryf iawn ynglŷn â'r maes pwysig hwn hefyd ac yn falch o weld yr adroddiad a'r argymhellion a'r ymgais ddidwyll ac amlwg i hybu cydweithio ar draws timau a sefydliadau, sydd mor bwysig.
- Y cytunai â'r sylw o ran cyfeirio elfen o'r gwaith at y Gwasanaeth ADY.
- Ei bod yn croesawu'r cyfeiriad at ochel rhag gadael i unigolion sydd ag awtistiaeth yn unig (h.y. heb anhawster dysgu) ddisgyn trwy'r rhwyd oherwydd bod sicrhau cefnogaeth i bobl sydd ddim yn amlygu eu hawtistiaeth bob amser yn hynod bwysig.
- Ei bod yn cytuno'n llwyr â'r angen i ystyried anghenion plant a phobl ifanc sydd hefo awtistiaeth wrth gynllunio ysgolion a'r angen am ardaloedd tawelach fel bod gan unigolion ofod i encilio iddo yng nghanol bwrlwm ysgol.
- Bod ganddi bryder am y rhestrau aros am ddiagnosis a phryder am y bobl ifanc hynny y mae amgylchedd yr ysgol yn ormod iddynt a'r diffyg cefnogaeth gyson i'w hanghenion penodol.
- Ei bod yn achub ar bob cyfle i gyfleu'r neges i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r heriau staffio a heriau capasiti, yn enwedig ym maes seicolegwyr addysg.

- Ei bod yn croesawu'r adroddiad a'r argymhellion ac yn hapus i gydweithio o ran yr elfennau sy'n berthnasol i'r maes addysg.

Holwyd a fwriedid ymestyn yr hyfforddiant awtistiaeth i holl staff yr ysgolion, yn cynnwys staff arlwyo a staff glanhau ayb. Mewn ymateb, nodwyd y byddai'r Aelod Cabinet Addysg yn holi'r Adran ynglŷn â hynny ac yn mynegi pa mor bwysig yw ymestyn yr hyfforddiant i bawb oherwydd sensitifrwydd o gwmpas bwydydd a gweadau gwahanol ayb.

Nododd yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd:-

- Bod cyfeiriad yng Nghynllun Cydraddoldeb y Cyngor at anghenion pobl niwroamrywiol a bod bwriad i edrych ar gyflogaeth a materion cydraddoldeb yng nghyd-destun niwroamrywiaeth ac yn sgil Adolygiad Buckland o Gyflogaeth Awtistiaeth.
- Y cytunai â'r sylw ynglŷn â phrinder bobl broffesiynol, yn enwedig seicolegwyr addysg, i weithio yn y maes, a bod llythyrau wedi'u hanfon at y Gweinidog Addysg yn galw am sefydlu cwrs Seicoleg Addysg ym Mhrifysgol Bangor gan y byddai hynny o fudd mawr i bobl Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD**

1) **Derbyn canfyddiadau'r Grŵp Tasg a Gorffen.**
2) **Gofyn i'r gwasanaeth:-**
   - **gynnal awdit o sefyllfa hyfforddiant staff proffesiynol sy'n gweithio yn y maes fel cam cyntaf.**
   - **Yna ystyried gosod targed ar gyfer cyflawni hyfforddiant gan anelu i'w cynnwys ar y rhaglen hyfforddiant craidd fel a ganlyn:-**
     a) **staff sy'n gweithio neu'n dod i gyswllt gyda phobl ag awtistiaeth (fesul adran a chan gynnwys ysgolion) a**
     b) **hyfforddiant codi ymwybyddiaeth ymhlith holl staff y Cyngor.**
   - **adeiladu ar yr hyfforddiant i staff mewn ysgolion a meddygfeydd ynghylch cyfeirio at y Tîm Niwro-ddatblygiadol mewn achosion nad ydynt yn gymwys.**
   - **annog yr holl Gynghorwyr i ddilyn yr e-fodiwl hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Awtistiaeth a mynychu dyddiau agored ar draws y Sir sy'n galluogi pawb i gael profiad ar y bws awtistiaeth.**
3) **Argymell fod y Pwyllgor Craffu, ar y cyd â'r Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd, yn cysylltu gyda'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo i sicrhau mewnbwn gan y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i ddatblygiad unrhyw ysgol newydd neu addasiadau i unrhyw ysgol i'r dyfodol er mwyn ei gwneud yn addas i unigolion gydag awtistiaeth e.e. gofod tawel, gallu lleihau'r golau ayyb. Byddai'n fuddiol sefydlu'r egwyddor o sicrhau mewnbwn gan y Tîm Awtistiaeth (Adran Plant ac Oedolion) ar gyfer unrhyw ddatblygiad newydd neu addasiad i unrhyw adeilad arall gan y Cyngor.**
4) **Yn sgil pryder fod y cynllun yn cael ei ariannu trwy grant yn gyfredol, bod y Pwyllgor Craffu Gofal yn gofyn am ddiweddariad ymhen 12 mis pellach o weithredu i sicrhau fod cynnydd yn parhau i ddigwydd, gan ofyn am fewnbwn Addysg ac Iechyd unwaith eto.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12.25yp.

Cadeirydd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR CRAFFU** |
| **DYDDIAD** | **13.06.24** |
| **TEITL** | **DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DoLS)** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **GALLU’R CYNOR I WEITHREDU CYNLLUN DIOGELU RHAG COLLI RHYDDID (DoLS)** |
| **AWDUR** | **MANNON EMYR TRAPPE** |
| **AELOD CABINET** | **CYNG. DILWYN MORGAN** |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Mae’r her barhaus i gydymffurfio â dyletswyddau statudol yn ymwneud â DoLS yn rhoi’r Cyngor mewn sefyllfa o risg o gael ein cosbi’n ariannol. Mae rhai enghreifftiau o awdurdodau lleol yn gorfod talu iawndal o rhwng £3000-4000 am bod mis y mae’r unigolion wedi cael eu hamddifadu o’u rhyddid heb awdurdod.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

Mae risg uchel bod y Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth gyda’r trefniadau DoLS gyda’r nifer o ddyddiau i gwblhau asesiad awdurdodiad safonol yn uwch na’r gofynion statudol. Er bod y rhestr aros wedi lleihau trwy’r ymdrechion wnaed hyd yma, mae nifer fawr o geisiadau yn parhau i gael eu derbyn.

Oherwydd diffyg adnoddau presennol o fewn y ‘tîm’ DoLS, ymddengys nad oes opsiynau ymarferol pellach i liniaru’r risg ac felly mae tebygolrwydd y bydd yn anorfod bod y Cyngor yn derbyn y risg o gael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau yn ymwneud â DoLS.

## 3. Crynodeb a’r Materion Allweddol

Mae'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn addasiad i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae Erthygl 5 o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn nodi bod gan bawb yr hawl i ryddid a diogelwch. Ni fydd unrhyw un yn cael ei amddifadu o'i ryddid [oni bai] yn unol â gweithdrefn a ragnodir yn y gyfraith. " Y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yw'r weithdrefn a ragnodir yn y gyfraith pan fo angen amddifadu preswylydd neu glaf o'u rhyddid pan nad oes ganddynt y gallu (capasiti) i gytuno i'w gofal a'i driniaeth er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Gall cyflyrau fel dementia neu anaf i’r ymennydd arwain at ddiffyg capasiti.

Ym mis Mawrth 2014, cyfeiriodd dyfarniad y Goruchaf Lys at y 'prawf asid' i weld a yw person yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Roedd hyn yn cynnwys dau gwestiwn i brofi nad oes gan yr unigolyn y capasiti i gytuno i’w trefniadau gofal:

1. A yw'r person yn destun rheolaeth a goruchwyliaeth barhaus? ac
2. A yw'r person yn rhydd i adael? (yn barhaol)

Os yw unigolyn yn derbyn lefel uchel o oruchwyliaeth, ac nad yw'n rhydd i adael yr adeilad yn barhaol, yna mae bron yn sicr eu bod yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'n bwysig ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun, ond yn ychwanegol at y ddau gwestiwn 'prawf asid', os yw un o'r nodweddion canlynol yn bresennol, mae'n ofynnol gwneud cais am asesiad ar gyfer awdurdodiad amddifadu o ryddid:

- Defnydd rheolaidd o dawelydd/meddyginiaeth i reoli ymddygiad
- Defnydd rheolaidd o ataliad corfforol i reoli ymddygiad
- Bod y person dan sylw'n gwrthwynebu ar lafar neu'n gorfforol i'r cyfyngiad a/neu'r ataliaeth
- Gwrthwynebiad gan deulu a/neu ffrindiau i'r cyfyngiad neu'r ataliaeth
- Bod yr unigolyn wedi'i gyfyngu i ran benodol o'r adeilad ble mae'n derbyn gofal ynddo
- Bod y lleoliad yn ansefydlog neu'n anghynaladwy
- Her bosibl i'r cyfyngiad a'r ataliad sy'n cael ei gynnig i'r Llys Gwarchod neu'r Ombwdsmon, neu lythyr cwyn neu lythyr cyfreithiwr
- Bod yr unigolyn eisoes yn destun awdurdodiad amddifadu o ryddid sydd ar fin dod i ben.

Mae trefniadau DoLS yn sicrhau bod pobl na allant gytuno i'w trefniadau gofal mewn cartref gofal neu ysbyty yn cael eu hamddiffyn os yw'r trefniadau hynny'n eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae'r trefniadau hynny'n cael eu gwirio er mwyn sicrhau eu bod yn angenrheidiol ac er lles gorau'r unigolyn.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn caniatáu i rywfaint o ataliad a chyfyngiadau gael eu defnyddio - ond dim ond os ydynt er lles gorau'r unigolyn a'u bod yn angenrheidiol ac yn gymesur.

Mae angen mesurau diogelu ychwanegol os bydd y cyfyngiadau a'r ataliad a ddefnyddir yn amddifadu person o'i ryddid. Gelwir y rhain yn Fesurau Diogelu rhag Colli Rhyddid. Mae angen defnyddio'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid os yw'r unigolyn yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn cartref gofal neu ysbyty. Gall y Llys Gwarchod awdurdodi colli rhyddid mewn lleoliadau eraill.

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i awdurdodi ceisiadau i amddifadu unigolyn o'i ryddid mewn cartrefi gofal a nyrsio ond mae'r dyletswydd yn eistedd hefo'r Bwrdd Iechyd i unigolion sy'n derbyn gofal mewn ysbytai. O dan y drefn DoLS, mae'r corff sy'n awdurdodi'n cael eu adnabod fel y Corff Goruchwylio.

Mae'n ddyletswydd ar gartrefi gofal a nyrsio i wneud cais am awdurdod safonol neu awdurdod brys sy'n rhoi'r awdurdod iddynt amddifadu unigolyn o'u rhyddid.

Fel rhan o'r broses i ddiogelu unigolion, mae'n allweddol bod gan y person rywun sydd â phwerau cyfreithiol i'w cynrychioli. Gelwir hyn yn gynrychiolydd y person perthnasol ac fel arfer bydd aelod o'r teulu neu ffrind yn cymryd y rôl ond mae modd comisiynu adfocatiaeth i wneud y rôl yma.

Bydd cais am awdurdod yn cael ei anfon at y corff goruchwylio sy'n gorfod penderfynu o fewn 21 diwrnod am awdurdod safonol a 7 diwrnod am awdurdod brys os a ellir amddifadu'r person o'i ryddid.

Bydd y corff goruchwylio yn penodi aseswr budd gorau i asesu a yw'r amodau'n cael eu bodloni er mwyn caniatáu i'r person gael ei amddifadu o'i ryddid o dan y mesurau diogelu. Maent yn cynnwys:

- bod yr unigolyn dros 18 oed
- bod yr unigolyn yn dioddef o anhwylder meddwl (a gydnabyddir gan y Ddeddf Iechyd Meddwl).
- Nid oes gan yr unigolyn y gallu i benderfynu drosto'i hun am y cyfyngiadau a gynigir er mwyn eu galluogi i dderbyn y gofal a'r driniaeth angenrheidiol.
- Byddai'r cyfyngiadau yn amddifadu person ei ryddid
- Bod y cyfyngiadau arfaethedig er budd gorau'r unigolyn.
- Mae angen ystyried os yw cadw unigolyn o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn fwy addas.
- Nid oes penderfyniad dilys wedi ei wneud gan yr unigolyn ymlaen llaw i wrthod triniaeth neu gefnogaeth a fyddai'n cael ei diystyru gan unrhyw broses DoLS.
- Oes gan yr unigolyn Bŵer Atwrnai Parhaol (LPA) ar gyfer Iechyd a Lles ac yn cytuno ag awdurdodiad DoLS.

Os na fodlonir unrhyw un o'r amodau uchod, ni ellir awdurdodi amddifadu unigolyn o’i ryddid. Gall hyn olygu bod yn rhaid i'r cartref gofal neu'r ysbyty newid ei gynllun gofal er mwyn cefnogi'r person mewn ffordd llai cyfyngol.

Os bodlonir yr holl amodau, rhaid i'r corff goruchwylio awdurdodi amddifadu o ryddid a hysbysu'r person a'r awdurdod rheoli yn ysgrifenedig. Gellir ei awdurdodi am gyfnod hyd at flwyddyn. Os oes angen i unigolyn barhau i gael ei amddifadu o’i ryddid ar ddiwedd y cyfnod, mae angen gwneud cais am awdurdodiad arall.

Nid oes rhaid i'r person gael ei amddifadu o'i ryddid drwy gydol yr awdurdodiad. Dylai'r cyfyngiadau ddod i ben unwaith nad oes eu hangen mwyach.


Cafodd yr Trefniadau Diogelu Rhyddid (LPS) eu cyflwyno yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol diwygiedig 2019. Roedd yr LPS yn cael eu cyflwyno i gymryd lle DoLS ac roedd y gweithdrefnau newydd yn llawer mwy cymesur gan eu bod yn symleiddio’r fframwaith gyfreithiol a byddai’r broses asesu’n digwydd fel rhan o gynllunio gofal unigolyn.

Roedd yr LPS i fod i ddod yn weithredol ym mis Hydref 2020. Cafodd hyn ei oedi oherwydd amgylchiadau a phwysau Covid-19, ond, bu cyhoeddiad ym mis Mehefin 2023 na fyddai’r Llywodraeth presennol yn San Steffan yn cyflwyno’r newidiadau. Nid oedd arian gan Llywodraeth Cymru i barhau hefo’r cynllun yn annibynnol o San Steffan. Roedd hyn yn golygu ein bod yn parhau hefo gweithdrefnau DoLS.

**5. Sefyllfa Gwynedd**

Mae disgwyliad bod pob cais am awdurdod safonol yn cael eu cwblhau o fewn 21 diwrnod a bod ceisiadau brys yn cael eu cwblhau o fewn 7 diwrnod.


Mae rhestr aros yn Gwynedd o 340 unigolyn sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdod. Gweler y graff isod sy'n dangos amser aros am asesiad. Gweler bod 20 unigolyn wedi bod yn aros dros 3 blynedd am asesiad:




Mae 'tîm' DoLS Adran Oedolion Gwynedd yn cynnwys un BIA sy'n gweithio deuddydd yr wythnos ac un Cydlynydd sy'n gweithio 4 diwrnod yr wythnos, rydym hefyd yn derbyn cefnogaeth weinyddol. Nid yw'n bosibl i weinyddwr reoli'r holl brosesau ac felly mae'r mwyafrif helaeth o amser y Cydlynydd yn cael ei dreulio'n rheoli'r rhestr aros a blaenoriaethu a dyrannu achosion. Mae'r amser sydd ganddi i gwblhau asesiadau ei hun yn gyfyngedig.

Mae angen Asesydd Budd Gorau (BIA) a meddyg i gwblhau asesiad DoLS. Mae 18 o staff yr Adran Oedolion wedi cymhwyso fel BIA. Mae sawl ymgais wedi ei wneud i geisio cael trefniant effeithiol lle byddai pob BIA yn ymrwymo i wneud nifer o asesiadau DoLS yn flynyddol. Ond, oherwydd bod pob asesiad yn cymryd oddeutu 10 awr i'w gwblhau, mae'r gwaith BIA allai gyfrannu rhywfaint at ddelio a rhestr aros DoLS yn lleihau capasiti'r gwasanaethau i gyflawni eu gwaith dydd i ddydd ac felly'n creu rhestrau aros tebyg o fewn y gwasanaethau.

Ar gyfartaledd, mae 67 cais DoLS yn dod i'n sylw'n fisol ac mae 16 achos yn cael eu hawdurdodi, bydd y gweddill yn cael eu rhoi ar y rhestr aros.




Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Adran wedi derbyn grant blynyddol o £114,00 gan Llywodraeth Cymru i geisio cyfarch y rhestr aros DoLS ac i ddarparu hyfforddiant. Defnyddir yr arian yma i gomisiynu asiantaeth i ategu capasiti i gwblhau'r asesiadau budd gorau ac i dalu i'r meddygon am gwblhau eu hasesiad capasiti. Mae bwriad i gyflwyno ceisiadau blynyddol am yr arian yma.

Mae modd awdurdodi DoLS am gyfnod hyd at flwyddyn. Bydd cais pellach ar ddiwedd y cyfnod i ail awdurdodi.

Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa DoLS awdurdodau eraill ar draws y rhanbarth:

| AWDURDOD | POBLOGAETH | RHESTR AROS DoLS | NIFER O ASESWYR BUDD GORAU |
|---|---|---|---|
| MÔN | 68,900 | 91 | 2 + Cydlynydd |
| DINBYCH | 96,000 | 236 | 2.5 + Cydlynydd |
| CONWY | 114,800 | 248 | 3.8 + Cydlynydd |
| FFLINT | 155,100 | 314 | 3 + Cydlynydd |
| WRECSAM | 135,100 | ------- | ---------- |
| GWYNEDD | 117,100 | 340 | 0.4 + Cydlynydd |

### 6. Ymgynghori

Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol fel rhan o gynllun archwilio 2022/23, er mwyn sicrhau fod trefniadau DoLS presennol y Cyngor yn addas i bwrpas. Fel rhan o'r archwiliad gwreiddiol gwiriwyd bod trefniadau digonol mewn lle ar gyfer y gyfundrefn newydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (Liberty Protection Safeguards - LPS) yn ogystal â gwirio'r trefniadau presennol ar gyfer asesiadau DoLS. Rhoddwyd lefel sicrwydd cyfyngedig i'r archwiliad, hynny yw, er bod rheolaethau mewn lle, roedd angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r Cyngor yn agored iddynt.

Ym mis Mawrth 2024, cafwyd dilyniant i'r archwiliad er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth wedi gweithredu ar y camau gweithredu ymrwymwyd iddynt er mwyn lliniaru'r risgiau cysylltiedig.

Bu i'r adroddiad gloi yn nodi –
*'Hyd yma nid oes unrhyw newidiadau i'r drefn bresennol. Fel y mae, mae risg uchel yn parhau bod y Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth gyda'r trefniadau DoLS h.y. y nifer o ddyddiau i gwblhau asesiad awdurdodiad safonol yn uwch nag hyn sydd yn ddisgwyliedig. Er bod y rhestr aros wedi lleihau mae nifer fawr o geisiadau yn parhau i gael eu derbyn ar ben rheini sydd yn disgwyl am asesiad. Mynegodd y Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol bod bwriad i gyflwyno hyn i sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal (dyddiad i'w gadarnhau) er mwyn cadarnhau os oes modd lliniaru'r risg, oherwydd gyda'r adnoddau presennol, ymddengys nad oes opsiynau ymarferol ac felly tebygolrwydd bydd yn anorfod derbyn y risg o'r Cyngor yn cael ei gosbi oherwydd diffyg cydymffurfiaeth â Deddfau cyfreithiol yn ymwneud â DoLS'.*

## 7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

Mae'r broses DoLS yn gosod canllawiau pendant ar gyfer cynnwys unigolion, teuluoedd etc. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn benodol a trefniadau'r Cyngor i weithredu'r broses DoLS. Nid oes bwriad i ymgynghori am yr ymdrechion i geisio gwella'r drefn.

A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

Mae dyletswydd penodol ar bob awdurdod lleol fel Corff Goruchwylio i weithredu o fewn deddfwriaeth a chanllawiau statudol DoLS. Mae cydweithio da yn digwydd gyda awdurdodau eraill o ran rhannu ymarfer da a gwybodaeth ac gyda'r Bwrdd Iechyd ar lefel lleol.

Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

Credir bod yr Adran wedi gwneud ymdrech i ymateb i'r heriau ac yn parhau i geisio canfod datrysiadau ymarferol. Ni ellir rhagweld gyda unrhyw sicrwydd beth fydd sefyllfa'r dyfodol ond gyda poblogaeth sydd yn mynd yn hyn, byddai'n rhesymegol dod i'r canlyniad y gallai'r pwysau ar y drefn DoLS ac felly lefel y risg gynyddu ymhellach dros y blynyddoedd nesaf.

Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

Bwriad yr adroddiad hwn yw pwyso a mesur risgiau ac felly galluogi'r Cyngor i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

Mater penodol i Gyngor Gwynedd yw hwn.

**8. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Cyn belled a phosib, bydd y Cydlynydd yn ymdrechu i sicrhau bod y cynnig rhagweithiolyn cael ei wneud pan yn asesu unigolion a phan yn ymgysylltu â'u teuluoedd. Mae sawl meddyg sydd hefyd yn gallu asesu yn yr Iaith Gymraeg ond mae hyn yn aml yn ddibynnol ar leoliad yr unigolyn.
Oherwydd yr angen i ddefnyddio asiantaeth arbenigol allanol i gwblhau'r asesiadau budd gorau, mae'r mwyafrif helaeth o'r aseswyr yn uniaith Saesneg. Ystyrir y ffactorau ieithyddol yma wrth ddosrannu gwaith asesu.

**9. Camau Nesaf**

Mae oddeutu 100 o'r unigolion sydd ar y rhestr aros yn unigolion sy'n byw yn y gymuned, mewn llety gofal a chefnogaeth. Mae'r achosion hyn yn cael eu hystyried yn DoLS cymunedol ac mae angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod i'w hamddifadu o'u rhyddid. Nid oes angen i'r asesydd fod yn BIA ar gyfer gwneud y cais yma. Mae'r unigolion yma'n derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth Anableddau Dysgu. Mae trafodaethau eisoes yn digwydd o fewn yr Adran i newid trefniadau a bod yr asesiadau yma'n cael eu cwblhau gan y gwasanaeth fel rhan o'r adolygiad blynyddol. Bydd hyn yn gymorth i leihau'r rhestr aros ond rydym hefyd yn cydnabod y gall gael rhywfaint o effaith ar gapasiti staff y gwasanaeth gan y bydd adolygiadau blynyddol yn cymryd mwy o amser I'w cwblhau. Ni ellir amcanu maint yr effaith yma hyd nes y byddwn wedi bod yn gweithredu'r drefn am gyfnod.

**Gwybodaeth Cefndir**

Gweler y dolenni isod sy'n rhoi mwy o wybodaeth am Ddeddf Galluedd Meddyliol, 2005 a'r broses DOLS –
Mental Capacity Act 2005 (legislation.gov.uk)
Deprivation of Liberty Safeguards (DoLS) at a glance - SCIE
Deprivation of Liberty Safeguards (ageuk.org.uk)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 13 Mehefin 2024 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24 |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | Dyma roi cyfle i Aelodau graffu ar waith y Panel Strategol Diogelu dros 2023/24 |
| **AWDUR** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Menna Trenholme |

Prif flaenoriaeth Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a cham-fanteisio. Mae’r Panel Strategol Diogelu wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar Ddiogelu fel mater corfforaethol, traws-adrannol.

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi’i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 hyd at Fawrth 2024.

**1. Pam fod angen ei graffu?**

Dyma roi cyfle i Aelodau graffu ar waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod. Credir i’r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

**2. Beth yn union sydd angen ei graffu?**

- *Oes gan yr Aelodau unrhyw sylwad ar gynnwys yr adroddiad?*
- *Oes unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol?*
- *Ydi’r Aelodau yn cytuno â’r blaenoriaethau ar gyfer 2024/25?*

**3. Crynodeb a’r Materion Allweddol**

Dyma ddogfen ffeithiol sy’n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu dros y flwyddyn.

**4. Cefndir / Cyd-destun**

Gweler yr Adroddiad sydd wedi ei atodi.

**5. Ymgynghori**

Ymgynghorwyd â Aelodau’r Panel Strategol Diogelu er mwyn llunio’r adroddiad hwn.

**6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae sicrhau fod pobl fregus a phlant yn ddiogel yn ran hanfodol a chreiddiol o alluogi ffyniant i genedlaethau'r dyfodol.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r gwaith diogelu gydag oedolion yn edrych yn benodol ar anghenion unigolion sydd ag anabledd neu sydd yn fregus mewn rhyw ffordd.

## 8. Camau Nesaf

Bwriedir gyflwyno'r Adroddiad o flaen y Cyngor Llawn fis Gorffennaf.

## 9. Gwybodaeth Cefndir

Cyflwynwyd yr Adroddiad i'r Cabinet 11 Mehefin 2024.

**Atodiadau**

- Adroddiad Blynyddol Panel Strategol Diogelu 2023/24

# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

# 2023/24

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Cyflwyna'r adroddiad drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2023 hyd at Fawrth 2024 gan amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a gan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill.

## 2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

2.1. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

2.2. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

2.3. Cadeirydd y Panel yw Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol. Gwelir y Cylch Gorchwyl newydd yn **Atodiad 1**, sy'n cynnwys rhestr o aelodau cyfredol y Panel. Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl yn ystod 2023/24.

2.4. Mae Grŵp Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Grŵp mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu. Gwelir Cylch Gorchwyl newydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn **Atodiad 2**. Diweddarwyd y Cylch Gorchwyl yn ystod 2023/24.

2.5. Mae rhannau o berfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael eu hasesu mewn cyfarfodydd herio perfformiad gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol a chan archwilwyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach.

## 3. POLISI DIOGELU NEWYDD

3.1. Yn ystod 2023 fe gynhaliwyd adolygiad o Bolisi Diogelu y Cyngor, sy'n datgan sut rydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Gyda'r fersiwn blaenorol yn addasiad o Bolisi a grëwyd yn 2013, penderfynwyd ei bod yn amserol i baratoi polisi o'r newydd yn hytrach na diweddaru'r ddogfen yn unol â'r drefn arferol.

3.2. Bu gweithdy o dan arweiniad Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol fis Hydref 2023. Mynychodd cynrychiolaeth o swyddogion ar draws y Cyngor, gan gynnwys Pennaeth Cynorthwyol Plant Diogelu ag Ansawdd ac Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd ac Iechyd Meddwl.

3.3. Cytunwyd ar sawl newid yn y gweithdy:

- Atega'r Polisi Diogelu diwygiedig fod gan bawb gyfrifoldeb i ddiogelu, ond noda hefyd fod cyfrifoldebau penodol ar gyfer pob Cynghorydd ac aelod o staff, yn ogystal â manylu ar sut y dylai diogelu gael ei adlewyrchu mewn trefniadau contractio a chomisiynu.
- Amlygwyd y disgwyliadau i staff Cyngor Gwynedd a Chynghorwyr i weithredu yn ôl yr egwyddorion a nodir yn y polisi bob amser, boed yn ystod oriau gwaith neu fel arall.
- Roedd aneglurder yn yr hen fersiwn rhwng diogelu ac amddiffyn, ac mae hynny wedi derbyn sylw bellach. Mae'r Polisi yn gwneud hi'n glir mai diogelu sydd o dan sylw, a bod gweithdrefnau eraill i'w dilyn wrth "amddiffyn".
- Mae'r Polisi diwygiedig yn amlygu rôl y Panel Strategol Diogelu. Penderfynwyd addasu Cylch Gorchwyl y Panel, a rhoddwyd sylw pellach i'r aelodaeth er mwyn gwneud yn siŵr fod uwch swyddogion ar draws y Cyngor yn ogystal ag arbenigwyr yn y maes diogelu Plant ac Oedolion yn cael gwahoddiad.
- Yn sgìl hyn adolygwyd yr angen am Gylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Gweithredol Diogelu hefyd, gan gynnwys, disgrifiad o'r rôl Personau Dynodedig Diogelu.
- Cryfhau'r trefniadau adrodd a monitro. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.
- O ran Polisïau Diogelu adrannau unigol, nodwyd bod gan y Cyngor un Polisi corfforaethol. Fodd bynnag, gall yr adran gyflwyno eu polisi penodol eu hunain os bernir bod angen hynny.

3.4. Ar 20 Chwefror 2024, fe cymeradwyodd y Cabinet y Polisi diwygiedig, ac fe'i gyflwynwyd i'r Cyngor yn mis Mawrth 2024, ac felly mae'r newidiadau uchod bellach wedi ei fabwysiadu. Yn ystod y 2024/25 bydd angen gwaith pellach er mwyn hyrwyddo'r Polisi diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor.

## 4. CYNNYDD YN ERBYN Y MATERION DIOGELU

### 4.1. Diogelu Plant

4.1.1. Arhosodd nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau plant yn weddol gyson, gyda **7,230** o gyfeiriadau yn 2023/24 o gymharu â **7,175** y llynedd. Awgrymir felly bod y cynnydd sylweddol yn y nifer o gyfeiriadau a welwyd yn ystod cyfnod COVID-

19 yn sefydlogi, ond, ddim yn dychwelyd i'r lefel cyn-bandemig o tua 5,000 o gyfeiriadau y flwyddyn.

4.1.2. Bu'r pwysau gwaith ar y gwasanaeth yn llethol a bu'r gweithlu yn hynod brysur yn cefnogi'n plant a'n teuluoedd. Nodir fod yr achosion a welwyd yn rhai llawer mwy dwys a chymhleth, a bwriedir gwneud fwy o waith i ddeall y tueddiadau sy'n effeithio ar y gwasanaethau plant yn ystod 2024/25.


4.1.3. Bu achosion hefyd yn ystod y flwyddyn o droseddu yn erbyn plant. Tra fo achosion cyfreithiol a'r llysoedd yn gwneud eu gwaith, mae'n bwysig ein bod fel gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu'n gyson o'r digwyddiadau hyn drwy adolygiadau ac yn gwella'n gwasanaethau i sicrhau diogelwch y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

4.1.4. Fe welwyd cynnydd o **248%** yn y gwaith yn ymwneud â Rhan 5 yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23. Mae Rhan 5 yn ymwneud â phryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg.

4.1.5. Cafodd **79% (↓5%)** o adolygiadau amddiffyn plant eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn parhau yn uchel ar **99% (↑1%)**.

4.1.6. Ar ddiwedd mis Mawrth roedd **281** o blant mewn gofal, yr un nifer a llynedd. Roedd **37%** o'r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn o dan 5 oed, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel rhan o brosesau diogelu cyn dod i ofal. Mae ceiswyr lloches yn cynrychioli **18%** o'r plant a ddaeth i ofal eleni.

4.1.7. O'r cyfanswm plant mewn gofal mae **65%** mewn lleoliadau maeth, **13** (**5**%) mewn lleoliadau preswyl a **61** (**21**%) wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd 2 blentyn mewn lleoliadau mabwysiedig ar ddiwedd y cyfnod, gyda **16** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth (**10** ohonynt yn Geiswyr Lloches).




4.1.8. Yn ystod 2023/24 defnyddiwyd trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **5** o bobl ifanc mewn gofal.

4.1.9. Yn hanesyddol mae ein defnydd o drefniadau lleoliadau heb gofrestriad wedi bod yn brin iawn, ac am gyfnodau byr o ychydig ddiwrnodau neu wythnosau ar y mwyaf, hyd nes byddai lleoliad a adnabuwyd ar gyfer y person ifanc yn barod. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn genedlaethol erbyn hyn yn un llawer mwy difrifol, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau fod trefniant o'r fath ar gael oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn arbennig wir am bobl ifanc yn eu harddegau sydd ag anghenion dwys a chymhleth neu wedi profi toriad mewn lleoliad oherwydd ymddygiad heriol.

4.1.10. Ymdrechwn i ymateb i'r her drwy ddatblygu darpariaeth breswyl ein hunain drwy'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain, sy'n flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Prynwyd yr eiddo cyntaf ym mis Mawrth 2024, gyda'r bwriad i agor cyn diwedd y flwyddyn.

4.2. **<u>Diogelu Oedolion</u>**

4.2.1. Derbyniwyd **719** o adroddiadau Oedolion yn ystod 2023/24, sef tebyg i ffigwr yn 2022/23 o **714**. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae **94% (↓1%)** o'r ymholiadau cychwynnol a.126 o atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

4.2.2. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **100% (↑2%)** o'r achosion.

4.2.3. Cynhaliwyd ymweliadau cyson i fonitro cartrefi gofal y sir, gyda nifer fechan o gartrefi yn cael eu hystyried o dan y drefn 'Pryderon Cynyddol' oherwydd

rhesymau amrywiol, gan fwyaf yn cynnwys diffyg rheolaeth, problem dogfennaeth, a diffyg trosolwg. Bychan yw'r tîm Sicrwydd Ansawdd ac felly cyfyngir eu gallu i ymweld â phob gwasanaeth, yn enwedig gwasanaethau gofal cartref, ac felly mae'n rhaid blaenoriaethu'r gwaith ar sail gwybodaeth amserol a phriodol. Dibynnir ar adroddiadau penodol yn y maes hwnnw ynglŷn ag ansawdd y gofal a'i ddarpariaeth.

4.2.4. Pery pryder am y gwasanaeth DoLS (trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn ystod y flwyddyn gan fod rhai unigolion ar y rhestr aros am hyd at 3 mlynedd. Ar ddiwedd Mawrth 2023, roedd **350** yn aros am asesiad DoLS. Tra rhennir y math hwn o brofiad a sefyllfa gyda siroedd eraill, nid yw'n arfer da ac mae'r gwasanaeth yn gorfod blaenoriaethu unigolion yn ôl risg.

4.2.5. Derbyniwyd grant pellach gan y Senedd i gefnogi'r gwaith a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu asiantaeth i ymgymryd â nifer o asesiadau. Cyflwynir adroddiad archwiliad mewnol ar y sefyllfa DoLS i'r Pwyllgor Craffu ym mis Mehefin 2024.

4.3. **<u>Addysg</u>**

4.3.1. Ers Ebrill 2023 mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg wedi mynychu **41** o ysgolion i wirio trefniadau, polisïau a gweithdrefnau diogelu. Mae pob ysgol yn derbyn ymweliad gwirio ansawdd mewn cylch dwy flynedd. Mae pob ysgol ymwelwyd â hwy yn cydymffurfio gyda threfniadau diogelu priodol, gyda'r farn yma wedi ei gadarnhau gan ymweliadau Estyn. Mewn nifer fechan o ysgolion awgrymwyd mân addasiadau er mwyn gwella trefniadau ond nid oedd yr un ysgol angen ymweliad dilynol.

4.3.2. Cynhaliwyd Arolwg Blynyddol Diogelu gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg ym mis Mawrth 2024. Nodwyd fod:

- **92% (↑5%)** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **84% (↑14%)**o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **95% ( ↓2%)** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100% (aros yr un peth)** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

4.3.3. Yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/24 mae **10** sesiwn hyfforddiant lefel 2 a **9** sesiwn hyfforddiant sylfaenol wedi eu cynnig i staff ysgolion Gwynedd. Yn ogystal, mae'r swyddog Arweiniol Dynodedig wedi cynnal sesiynau hyfforddiant i Lywodraethwyr, athrawon llanw, staff blynyddoedd cynnar, tîm moderneiddio addysg a staff Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Erbyn hyn mae'r Arweinydd Dynodedig ar gyfer diogelu wedi cymhwyso i hyfforddi hyfforddwyr yn y maes Diogelu.

4.3.4. Yn dilyn ymdrech rhanbarthol i adolygu Polisi Grym rhesymol i ysgolion mae'r polisi enghreifftiol wedi ei rannu gydag ysgolion er mwyn i'r Llywodraethwyr ei fabwysiadu.

4.3.5. Yn sgìl newidiadau i ddull ariannu grantiau Plant Mewn Gofal gan Llywodraeth Cymru bydd yr Awdurdod yn derbyn y cyllid yn uniongyrchol erbyn hyn. Golygir felly y bydd modd i ni sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y disgyblion yn amserol a bod modd rheoli a gwerthuso'r defnydd o'r arian.

4.3.6. Ar ddiwedd Mawrth 2024 yr oedd cyfanswm o **208** o blant yn derbyn eu haddysg gartref o ddewis rhieni. Y prif resymau am addysgu o gartref oedd gôr-bryder a phroblemau iechyd meddwl y rhiant a'r disgybl. Llwyddwyd i gadw cyswllt cyson gyda mwyafrif y teuluoedd yma gyda nifer fychan yn gwrthod unrhyw gyswllt (yn unol a'i hawliau).

## 4.4. <u>**Trais yn y Cartref**</u>

4.4.1. Mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r mudiadau perthnasol ac mae ymdrechion i hyrwyddo pwysigrwydd adrodd ac adnabod arwyddion o drais yn y cartref yn parhau. Yn dilyn cais wedi'i baratoi gan swyddogion o'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol, derbyniwyd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' ym mis Mai 2022. Mae'r achrediad yn sicrhau fod sefydliadau yn cymryd dull strategol i roi diwedd i drais yn erbyn menywod, drwy newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth. Mae cydweithrediad agos rhwng Diogelwch Cymunedol a Chefnogaeth Gorfforaethol i fonitro ac adrodd ar y cynllun gweithredu.

4.4.2. Mae ffocws diweddar wedi bod ar rannu gwybodaeth ynglŷn â'r Llinell Gymorth 'Byw Heb Ofn' a 'Cyfraith Clare', sy'n rhoi'r hawl i bobl wybod a oes gan eu partner presennol neu gynbartner unrhyw hanes blaenorol o drais neu gamdriniaeth. Mae amryw o negeseuon wedi'i gyhoeddi yn fewnol ac yn allanol, a bu sesiynau diweddar wedi'i drefnu gyda rheolwr y llinell gymorth i esbonio'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr ond hefyd i staff.

4.4.3. Erbyn hyn mae’r e-fodiwl Trais yn y Cartref yn fandadol i holl aelodau staff. Mae’n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant ‘Ask and Act’ hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy’n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae **55%** o staff y Cyngor (gan gynnwys staff Parhaol, Achlysurol a Chyfnod Penodol) wedi cwblhau’r hyfforddiant.

4.4.4. Rhaid cofio nad oes gan bob aelod staff y Cyngor fynediad rhwydd i systemau TG y Cyngor ac mae hyn yn creu rhwystr. Mae’r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn edrych ar y rhaglen anwytho i geisio sicrhau fod pawb yn cwblhau'r e-fodiwlau ar ddiwrnodau cyntaf o gychwyn ei swydd.

4.4.5. Mae’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio yn agos gyda’r Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Gogledd Cymru). Mae’r cydweithrediad yma yn holl bwysig wrth weithredu’r argymhellion yn dilyn Adolygiadau Marwolaethau Domestig (DHR). Y Bartneriaeth sydd â chyfrifoldeb o gomisiynu, cyflwyno a monitro’r cynllun gweithredu ar gyfer DHRs yn ein hardal.

4.4.6. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae **1** achos DHR wedi’i gomisiynu a bellach gyda’r Swyddfa Gartref ar gyfer proses sicrwydd ansawdd. Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref, mae adroddiad arall wedi’i gyhoeddi ym mis Mawrth ac rydym yn y broses nawr o weithredu’r argymhellion.

4.4.7. Disgwylir trefn newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Adolygiadau ym mis Medi, drwy sefydlu system Adolygu Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Bydd y broses hon yn symleiddio’r drefn bresennol drwy gyfuno’r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl, Adolygiad Lladdiad Domestig ac Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol presennol.

4.5. <u>**Troseddu**</u>

4.5.1. Bu cynnydd amlwg yn nifer y troseddau Dwyn a Thrin yng Ngwynedd a hefyd ar draws Gogledd Cymru, o gymharu â'r llynedd. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf gan gynnydd mewn Troseddau Manwerthu (Lladrad o Siopa), sy'n dod o fewn y categori Dwyn a Thrin. Mae dwyn o siopau yng Ngwynedd **43.2%** yn uwch y flwyddyn hyd yma o gymharu â'r llynedd, gyda'r heddlu yn gweld cynnydd cyffredinol yng Ngogledd Cymru o dros **35%.** Mae’r argyfwng costau byw yn cael ei gydnabod yn eang fel un o’r ffactorau mwyaf yn y nifer cynyddol o

ddigwyddiadau. Mae Troseddau Manwerthu bellach yn flaenoriaeth i'r heddlu ac mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'r cynnydd a brofir.

4.5.2. Daeth y Dyletswydd Trais Difrifol i rym ym mis Ionawr 2023. Mae'r dyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Cyhoeddwyd y Strategaeth derfynol yn Ionawr 2024. Fel rhan o'r gwaith yma, mae'r Bartneriaeth wedi derbyn cyllid ar gyfer projectau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau trais difrifol gan blant a phobl ifanc. Mae'r Bartneriaeth yn parhau i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Rhanbarthol i weithredu'r Ddyletswydd.

4.6. **Caethwasiaeth Fodern a Datganiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi**

4.6.1. Mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau. Yn rhanbarthol, mae'r mater yma yn flaenoriaeth o fewn y Strategaeth Trais Difrifol newydd. Mae'r Heddlu yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth.

4.6.2. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd adroddiad o buteindy "dros-dro" yn ardal Bangor yn cynnwys 3 o ferched o Rwmania, pob un ohonynt wedi dod i mewn i'r wlad trwy Iwerddon yn honni eu bod ar wyliau. Mae amheuaeth bod puteindai dros dro yn fwy cyffredin nag y mae'r ychydig adroddiadau'n ei awgrymu ac mae swyddogion wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth ychwanegol er mwyn adnabod yr arwyddion. Mae Heddlu Gogledd Cymru hefyd yn cynnal ymweliadau rheolaidd â gwestai a safleoedd gwyliau ac yn darparu llenyddiaeth mewn clinigau a meddygfeydd iechyd rhywiol.

4.7. **Gwrthderfysgaeth**

4.7.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal â bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol. Pwrpas y Grŵp yw:

- Cydweithio gyda sefydliadau er mwyn darparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon yng Ngwynedd;
- Darparu ymdriniaeth diogelwch integredig, sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, i adnabod a darparu camau gweithredu cymesur er mwyn cadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel;
- Gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch yng Ngwynedd.

4.8. **Atal/Prevent**

4.8.1. Mae'r Swyddfa Gartref wedi creu hyfforddiant newydd ar gyfer Atal, ac mae'r e-fodiwl yn fandadol i'r holl weithlu erbyn hyn. Yng Ngwynedd, fe ddefnyddiwyd y porth e-ddysgu er mwyn "tracio" y niferoedd sy'n cwblhau'r hyfforddiant ac mae hyn yn golygu fod modd rhoi sylw penodol i annog staff mewn rhai Adrannau neu feysydd. Mae gweddill awdurdodau Gogledd Cymru wedi adrodd bod casglu data yn rwystr iddynt gan eu bod, yn wahanol i Wynedd, yn defnyddio'r linc allanol.

4.8.2. Yn dilyn llwyddiant y tri meincnod llynedd, yn ystod 2023/24 bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn canolbwyntio ar:

1) Cynhyrchu Cynllun Hyfforddi i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant Atal
2) Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Atal
3) Datblygu Polisi Llogi Lleoliad ar gyfer y Cyngor a phartneriaid

4.9. **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

4.9.1. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

4.9.2. Bu'r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â'r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

## 5. ADOLYGIADAU YMARFER

5.1. Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu gwersi o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'cryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dan sylw. Maent yn cael eu cynnal gan Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru gyda'r nod o ddysgu gwersi i'w rhannu er mwyn ceisio osgoi achosion o'r fath i'r dyfodol.

5.2. Mae Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru hefyd yn cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diben yr Adolygiadau hyn yw nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion Diogelu Oedolion cymhleth neu anodd, a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn.

## 6. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

6.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

6.2. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae gwaith y Bartneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.

6.3. Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

## 7. Y DYFODOL

7.1. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Bydd angen gwaith pellach er mwyn hyrwyddo'r Polisi Diogelu diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor.
- Sicrhau bod y Personau Dynodedig yn deall eu rôl ac yn ei gymryd o ddifri.
- Ystyried cyflwyno dashfwrdd data i adlewyrchu gwaith yn y maes diogelu.
- Yn dilyn achos llys cyhoeddus iawn ynglŷn a phennaeth ysgol uwchradd yng Ngwynedd, mae'n debygol y bydd angen Adolygiad Ymarfer Plant yn ôl canllawiau statudol dan arweiniad y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol. Bydd y Panel Strategol Diogelu yng Ngwynedd yn cadw golwg agos ar hwn ac yn ystyried y gwersi sydd i'w dysgu o'r achos.

**ATODIAD M**
## Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

**CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION**

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.

1.2. Disgwylir i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion arwain a chynghori ar y gofynion diogelu sydd ym mharagraffau 64-69 o Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.

1.3. Mae hefyd angen i bob asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.

1.4. I bwrpas y Panel hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU

2.1. Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef:

2.1.1. dyletswydd gorfforaethol cyffredinol i ddiogelu,

2.1.2. dyletswydd statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1.3. a'r ddyletswydd diogelwch cymunedol.

2.2. Er mwyn diwallu'r dyletswyddau hyn, disgwylir i'r Panel:

2.2.1. Adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain. Cydweithio gyda Grŵp Gweithredol Diogelu i ymateb i unrhyw fylchau adnabuwyd.

2.2.2. Adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain. (Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Lladdiad Domestig).

2.2.3. Adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain.

2.2.4. Hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.

2.2.5. Bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob aelod etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.

2.2.6. Bod yn gyfrwng i sicrhau bod aelodau staff ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant addas (er enghraifft y ddau fandadol VAWDASV a Atal) yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma.

2.2.7. Sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor yn y maes diogelu.

2.2.8. Sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â'r gofyn cyfreithiol i sicrhau bod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir.

2.2.9. Sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

## 3. MONITRO PERFFORMIAD

3.1. Bydd gan y Panel Strategol Diogelu gyfrifoldeb i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud â'r maes Diogelu.

## 4. CADEIRYDDIAETH

4.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

## 5. AMLDER CYFARFODYDD

5.1. Bydd y Panel yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn.

## 6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

6.1. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.

6.2. Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen)] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

**7. AELODAETH**

| Teitl |
|---|
| Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant |
| Aelod Cabinet Addysg |
| Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol |
| Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Prif Weithredwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Pennaeth Addysg |
| Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Diogelu |
| Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol |
| Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Môn a Gwynedd |
| Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl |

## ATODIAD H
## Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.

1.2. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu, ac yn gweithio i arweiniad y Panel hwnnw.

1.3. I bwrpas y Grŵp hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

## 2. CYLCH GORCHWYL Y GRŴP GWEITHREDOL DIOGELU

2.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn gweithredu'n unol â chanllaw a gofynion y Panel Strategol Diogelu.

2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro'r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau'n glir. Bydd y Panel yn cydweithio gyda Grŵp i ymateb i unrhyw bylchau adnabuwyd.

2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:

- Dealltwriaeth glir yng ngweithle'r Cyngor, a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
- Pob adran yn y Cyngor gyda'i gweithdrefnau diogelu ei hunain wedi'u dogfennu a'u defnyddio'n briodol, ac yn gydnaws â Pholisi Diogelu'r Cyngor.
- Staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
- Recriwtio mwy diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac yn effeithiol.

2.4. Bydd y Swyddogion Dynodedig Diogelu yn ymgymryd a rôl codi ymwybyddiaeth o fewn eu Hadrannau.

## 3. CADEIRYDDIAETH

3.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

**4. AMLDER CYFARFODYDD**

4.1. Bydd y Grŵp yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn.

**5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

5.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu.

5.2. Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen)] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

**6. AELODAETH**

6.1. Aelodaeth y Panel Gweithredol yw Swyddogion Dynodedig ar gyfer y maes diogelu plant ac oedolion o fewn pob Adran o fewn y Cyngor.

6.2. Mae rhestr o Swyddogion Dynodedig ar gyfer pob Adran i’w weld ar hunanwasanaeth staff.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Gofal** |
| **DYDDIAD** | **13eg o Fehefin, 2024** |
| **TEITL** | **Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan** |
| **RHESWM DROS GRAFFU** | **Mae’r Cyngor wedi clustnodi hwn fel prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.** |
| **AWDUR** | **Aled Gibbard** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Elin Walker-Jones** |

## 1. Pam fod angen ei graffu?

1.1 Mae datblygiad darpariaeth breswyl i blant mewn gofal drwy gynllunio cynllun cartrefi grŵp bychan angen ei graffu oherwydd bod y prosiect yn rhan o Gynllun y Cyngor (Gwynedd Ofalgar). Drwy graffu ar y datblygiad y prosiect mae yn edrych ar le mae’r prosiect arni o ran addewidion sydd wedi ei gynllunio ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24 a 24/25.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

2.1 Mae 3 cwestiwn angen ei graffu gyda Chynllun Cartrefi Grŵp Bychan sef:-

1. Beth yn union fydd y ddarpariaeth a faint o blant fydd yn elwa o’r cynllun?
2. Ydy’r prosiect yn cadw at yr amserlen ac o fewn y gyllideb?
3. A yw’n golygu y bydd modd defnyddio llai o ddarparwyr gofal all-sirol yn y dyfodol?

## 3. Crynodeb a’r Materion Allweddol

3.1 Mae’r adroddiad yma yn edrych ar gefndir y cynllun ac i ateb y 3 cwestiwn sydd angen ei graffu uchod gyda’r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychan. Bydd yr adroddiad yn edrych ar risgiau ar gyfer cwblhau'r cynllun, y sefyllfa gyllidol sydd am ateb y trydydd cwestiwn am ddefnyddio llai o ddarparwyr all-sirol drwy’r cynllun yma. Byddant yn darparu gwybodaeth am beth sydd wedi ei gyflawni eisoes ym mlwyddyn 1 yn y cynllun a beth rydym wedi cynllunio ar gyfer y dyfodol yn ogystal â datblygiadau tebyg sydd yn digwydd yn rhanbarthol a cenedlaethol. Er nad oedd ymgynghoriad cyhoeddus yn gorfod cymryd lle ar gyfer y cynllun rydym fel adran wedi bod yn rhan o gyfarfod cyhoeddus yr ardal er mwyn ateb cwestiynau oedd wedi codi gan unigolion sydd yn byw ym Morfa Bychan. Mae lleoli 2 blentyn mewn gofal ym mhob tŷ am ymateb i gwestiynau sydd wedi codi yn yr adroddiad gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â chydraddoldeb, y Gymraeg a’r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wrth fod plant Gwynedd yn cael aros mor agos i’w cynefin ac sydd yn bosib. Hefyd yn derbyn gwasanaeth a llety drwy gyfrwng y Gymraeg sef iaith gyntaf nifer o blant sydd mewn gofal yng

Ngwynedd. I orffen byddwn yn edrych ar y camau nesaf a beth sydd wedi ei gynllunio yn fuan i'r dyfodol gyda'r tŷ sydd eisoes wedi ei brynu ym Morfa Bychan. Rydym yn gobeithio yn y dyfodol agos bod modd agor ein drysau ar gyfer 2 dŷ arall mewn ardaloedd ar draws y Sir. Mae'r cynllun yma yn gwella profiadau'r plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas.

## 4. Cefndir / Cyd-destun

4.1.1 Mae datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan yn rhan o gynllun y Cyngor ac felly erbyn hyn yn ail flwyddyn y cynllun. Trosolwg ar gyfer y prosiect ydi i wella profiadau'r plant sydd yng ngofal y Cyngor gydag anghenion dwys a chymhleth, sydd ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Byddwn yn datblygu cartrefi preswyl cofrestredig ar gyfer grwpiau bychan o hyd at ddau o blant mewn un cartref fydd yn caniatáu iddynt gael gofal yng Ngwynedd, mynychu ysgolion lleol, a chymryd rhan gyflawn ym mywyd eu cymunedau. Mae pob cerrig milltir ar gyfer blwyddyn 1 y cynllun wedi ei gyflawni gyda un cerrig milltir yn parhau i'r ail flwyddyn sef Datblygu Datganiad o Bwrpas a pholisïau ar gyfer y datblygiad gan y bydd eu hangen i gofrestru'r uned gyda Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae hyn oherwydd yn ystod y Chwarter 4 prynwyd y tŷ cyntaf ar gyfer y Cynllun yn Morfa Bychan ac felly rŵan mae'r broses o'r cofrestriad yn digwydd.

4.1.2 Rheswm bod y Cyngor wedi rhoi cynllun yn ei le o ddarparu cartref preswyl ar gyfer grwpiau bach ydi gwneud yn siŵr bod plant Gwynedd yn cael byw yng Ngwynedd, aros yn eu cynefin a chael addysg drwy gyfrwng Cymraeg. Yn ogystal mae yng nghyd fynd gyda beth mae Llywodraeth Cymru yn trio ei weithredu arno sef dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal. Bydd hyn yn dod a chost all-sirol yr Adran sydd yn gorwario oherwydd lleoliadau heb ei reoleiddio i lawr yn sylweddol a gwneud yn siŵr bod rydym yn darparu gofal drwy Gyngor Gwynedd.

## 4.2 Risgiau

4.2.1 Mae ganddom tan ddiwedd flwyddyn 2027 i gwblhau'r prosiect ar gyfer 3 cartref preswyl cofrestredig. Er bod hynny i weld yn bell i ffwrdd mae dal risgiau weld ei weld fel rhan o'r cynllun. Mae risg wedi ei adnabod fel methiant i adnabod ail adeilad addas sy'n cydymffurfio gyda gofynion Arolygiaeth Gofal Cymru, neu gyda'r potensial o gydymffurfio gyda gwaith addasu. Yn ogystal mae risg bod amserlen o gael plentyn cyntaf yn y tŷ cyntaf erbyn Mis Medi 2024 oherwydd ffactorau eraill e.e. cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru yn cymryd hirach na'r disgwyl. Y risg arall sydd wedi ei adnabod ydi penodi staff ac os nad oes modd penodi y tro cyntaf yna bydd amserlen i allu hyfforddi staff yn cymryd hirach na'r disgwyl.

## 4.3 Sefyllfa Gyllidol

4.3.1 Mae'r cynllun yn cael ei ariannu drwy arian grant RIF/HCF ac mae wedi clustnodi 2 filiwn ar gyfer y cynllun. Y gobaith ydi bod byddant yn gallu ariannu o leiaf 3 tŷ ar gyfer darpariaeth cartrefi grŵp bychan mewn gwahanol ardaloedd o fewn y Sir sef

Meirionnydd, Arfon a Dwyfor. Ond bydd yn ddibynnol ar y farchnad dai yn ardal Meirionnydd ac Arfon er mwyn cwblhau'r cynllun.

4.3.2 Gyda'r tŷ cyntaf yn Morfa Bychan mae adroddiad wedi mynd i'r Cabinet er mwyn cyllido y swyddi ar gyfer y tŷ yma ac modd staffio yr ail dŷ hefyd. Am y flwyddyn ariannol 24-25 mae arian HCF yn gallu ariannu swyddi ond i wneud y swyddi yn barhaol mae angen trosglwyddo yr arian o bot all-sirol ar gyfer y prosiect. Bydd yn gweithio oherwydd byddant yn dod a plant mewn gofal o Wynedd yn ôl i'r Sir drwy eu lleoli yn un o'r cartrefi preswyl. Er mwyn i ni gallu cofrestru y tŷ gyda Arolygiaeth Gofal Cymru bydd angen gwaith wedi ei wneud ar tŷ fel drysau tân a system sprinkler. Rydym am hyn o bryd yn gweithio gyda Adran Tai ac Eiddo er mwyn neud y gwaith yma gyda amserlen i agor drysau y cartref preswyl Mis Medi, 2024.

## 4.4 Datblygiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol

4.4.1 Mae cynllun cartrefi preswyl grwpiau bychan hefyd wedi cael ei adnabod mewn siroedd dros Ogledd Cymru ac yn ehangach. Rydym eisoes wedi bod mewn trafodaethau gyda Chyngor Môn a Conwy ac wedi bod yn rhannu syniadau bod gwerth rhannu hyfforddiant os yn bosib ar gyfer staff.

## 4.5 Beth sydd wedi ei gyflawni – Blwyddyn 1 o'r cynllun

4.5.1 Pan gychwynnodd y cynllun roedd rhaid rhoi nodau i gyflawni ar gyfer y flwyddyn gyntaf ac roedd cynnydd ar y pwyntiau gweithredu yma yn cael ei adrodd yng nghyfarfodydd Herio Perfformiad dros y flwyddyn. Gweler isod nodau cyflawni ar gyfer Blwyddyn un o'r cynllun:-

- Penodi Rheolwr Prosiect
- Cwblhau Achos Fusnes ar gyfer sefydlu CGB
- Cyflwyno Cais Cyfalaf ar gyfer prynu / addasu eiddo
- Prynu / addasu eiddo.
- Datblygu Datganiad o Bwrpas a pholisïau ar gyfer y datblygiad gan y bydd eu hangen i gofrestru'r uned gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

4.5.2 Ar gyfer blwyddyn un mae'r uchod i gyd wedi ei gyflawni gyda'r eiddo cyntaf wedi ei brynu yn ystod Mis Mawrth 2024. Mae cais cofrestru hefyd erbyn hyn bron wedi ei gwblhau i yrru i Arolygiaeth Gofal Cymru.

## 4.6 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

4.6.1 Rydym fel adran wedi rhoi blaenoriaethau ar gyfer y cynllun ar gyfer y dyfodol hefyd drwy edrych beth sydd angen ei wneud yn yr ail flwyddyn ac i osod nodau ar gyfer blynyddoedd i ddilyn.

4.6.2 Blaenoriaethau rydym wedi datgan ar gyfer yr ail flwyddyn ydi:-

- Penodi Rheolwr i'r tŷ cyntaf ym Morfa Bychan
- Gwneud addasiadau ar gyfer y tŷ cyntaf ar gyfer cofrestriad Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW)

- Cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) am y tŷ cyntaf - gweithio tuag at Fis Mehefin 2024 i fyny at gychwyn Mis Medi 2024
- Agor drysau'r tŷ cyntaf ym Morfa Bychan Mis Medi 2024 a chael y plentyn cyntaf wedi ei leoli yno
- Chwarter 1 24/25 - archwiliad o’r farchnad dai mewn 3 ardal benodol sef Arfon (Bangor), Pwllheli a Meirionnydd
- Diwedd chwarter 2 24/25 – adnabod ail dŷ
- Diwedd chwarter 3 24/25 – pryniant ail dŷ
- Adnabod trydydd tŷ i brynu neu roi cais cynllunio i mewn ar ddarn o dir yn Ardal Arfon sydd eisoes yn berchen ar y Cyngor.

4.6.3 Yn dilyn adroddiad cafodd sylw gan y Cabinet ar 14eg o Fai, bellach rydym am symud ymlaen i hysbysebu swydd ar gyfer y tŷ cyntaf ym Morfa Bychan. Rydym hefyd mewn trafodaethau gyda’r Adran Eiddo er mwyn gwneud addasiadau ar gyfer y tŷ er mwyn iddo gyrraedd gofynion cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru. Gyda’r gobaith bod plentyn cyntaf yn y tŷ erbyn diwedd Mis Medi os mae popeth yn cael ei gadw o fewn y terfynau amser sydd wedi ei gofnodi. Hefyd rydym wedi trefnu digwyddiad recriwtio staff cartrefi preswyl plant ar y 26ain o Fehefin o 3y.h.-7y.h. yng Ngwesty Royal Sportman ym Mhorthmadog er mwyn denu unigolion i drio am swydd ddirprwy reolwr a gweithwyr preswyl ar gyfer y cartref ym Morfa Bychan.

## 5. Ymgynghori

5.1 Pan brynwyd y tŷ yn Morfa Bychan fel tŷ cyntaf sydd yn rhan o’r cynllun grŵp cartrefi bychan roedd cyfarfod cyhoeddus yn Morfa Bychan i drafod y mater. Mynychodd Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau, Aled Gibbard a Cynghorydd Elin Walker-Jones er mwyn ymgynghori gyda’r trigolion oedd yn y byw yn Morfa Bychan.

5.2 Ar ddiwedd y cyfarfod roedd pawb wnaeth fynychu teimlo yn fodlon gyda’r cynllun ac yn croesawu ac yn falch i weld pobl ifanc yn rhan o’r gymuned leol. Mae cyfathrebu wedi parhau yn dilyn y cyfarfod cyhoeddus gydag unigolyn sydd yn gwrthwynebu'r datblygiad ac yn cwestiynu doethineb i’w leoli ym Morfa Bychan. Fodd bynnag, mae yn bwysig edrych ar ffactorau hygyrchedd y datblygiad o le mae’r tŷ wedi ei leoli yn ogystal â chyflwr yr adeilad. Yn ogystal ag edrych ar gost i adnewyddu'r adeilad er mwyn ymateb i ofynion cofrestru Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae’r tŷ wedi ei leoli yn agos i nifer o gyfleusterau cyhoeddus sydd ym Morfa Bychan ac ym Mhorthmadog ac mae modd gael mynediad at addysg yn agos.

5.3 Nid oes angen caniatâd cynllunio datblygiadol ar gyfer y cynllun. Nid oedd angen trefnu cyfarfod ymgynghoriad cyhoeddus gyda’r datblygiad ond roedd Aled a Cynghorydd Elin Walker-Jones yn teimlo ei fod yn bwysig mynychu cyfarfod cyhoeddus yr ardal er mwyn gadael y trigolion wybod beth oedd yn mynd ymlaen yn Morfa Bychan ac i ateb cwestiynau am y cynllun.

5.4 Wrth fod y cynllun yn rhan o Gynllun y Cyngor mae’r diweddariad am y datblygiad yn cael ei adrodd yn gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd. Hefyd roedd ymgynghoriad gyda’r trigolion Morfa Bychan wedi ei wneud cyn cyflwyno adroddiad i’r Cabinet.

## 6. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

6.1 A ydych wedi **cynnwys** trigolion / defnyddwyr gwasanaeth? Os ddim, pryd a sut ydych yn bwriadu ymgynghori â nhw?

6.1.1 Mae trigolion Morfa Bychan eisoes wedi cael ymgynghoriad drwy gyfarfod ffurfiol yn yr ardal. Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud o ba unigolion fydd yn addas ar gyfer y math yma o ddarpariaeth yna byddant yn ymgynghori gyda’r bobl ifanc hefyd.

6.2 A ydych wedi ystyried **cydweithio**?

6.2.1 Er mai Cyngor Gwynedd sydd yn arwain ar y cynllun ac am fod yn berchen y tai preswyl bychain, mae Iechyd yn rhan o’r trafodaethau er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o’r cynllun. Mae Nyrs Plant Mewn Gofal ar gyfer yr ardal wedi cael gwahoddiad i weld y tŷ ac rydym yn cydweithio gydag Adran Addysg ac yr Ysgol Uwchradd leol i helpu pobl ifanc sydd am fod yn byw yn y tŷ i setlo yn eu hardal newydd.

6.3 Beth sydd wedi ei wneud neu bydd yn cael ei wneud i **atal** problemau rhag codi neu waethygu yn y dyfodol?

6.3.1 Rydym yn edrych am ail a trydydd tŷ i gwmpas y Sir i atal plant a phobl ifanc gorfod symud allan o Wynedd am ofal preswyl neu gael ei lleoli mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio.

6.4 Sut ydych wedi ystyried yr **hirdymor** a beth fydd anghenion pobl mewn blynyddoedd i ddod?

6.4.1 O edrych ar ystadegau o fewn yr Adran yn y 5 mlynedd diwethaf mae’r gofyn am wasanaeth wedi codi gan yr Adran Blant ac er rydym yn fel Adran yn trio ein gorau i gadw teuluoedd gyda’i gilydd i gyd fyd gyda’r strategaeth mae adegau lle mae yn amhosib oherwydd materion diogelu ac felly mae plant yn dod i ofal. Drwy flaenoriaethu darpariaeth breswyl ar gyfer pobl ifanc mae yn lleihau'r pwysau ar yr adran i orfod lleoli plant / plant ifanc oddi wrth eu cynefin ac mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio a lleoli gyda darparwyr sydd yn gwneud elw.

6.5 Er mwyn sicrhau **integreiddio**, a ydych wedi ystyried yr effaith bosib ar gyrff cyhoeddus eraill?

6.5.1 Do rydym wedi trafod gyda'r cyrff cyhoeddus perthnasol gyda'r cynllun os ydyw yn berthnasol iddynt.

## 7. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

7.1 Prif bwrpas datblygiad darpariaeth breswyl ydi i gadw plant mewn gofal Gwynedd mor agos i'w cynefin a bosib. Drwy wneud hyn maent yn cael byw mewn ardal Gymreigaidd a hefyd cael addysg a chyfleoedd cymdeithasol drwy'r iaith Gymraeg.

## 8. Camau Nesaf

8.1 Camau nesaf ar gyfer y dyfodol ydi penodi staff ar gyfer y tŷ ym Morfa Bychan, cael cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, hyfforddi staff a gallu cychwyn ar edrych ar yr ail a trydydd tŷ erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Os bydd popeth yn cadw o fewn yr amserlen byddant yn gobeithio agor ein cartref preswyl fel datblygiad cynllun cartrefi grŵp bychan erbyn diwedd Mis Medi, 2024.

## 9.Gwybodaeth Cefndir

9.1 Mae datblygiad darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan wedi cael ei drafod eisoes yn y cyfarfodydd isod:-

17.05.2023 – Panel Rhiantu Corfforaethol
20.06.2023 - Tîm Arweinyddiaeth
14.05.2024 – Cabinet - Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 14eg Mai, 2024, 1.00 y.h. (llyw.cymru)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 13 Mehefin 2024 |
| **TEITL** | Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor Craffu ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Yn 2015, sefydlwyd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth mewn ymateb i Astudiaeth Gofal Iechyd Canolbarth Cymru gyda'r nod o sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yng Nghanolbarth Cymru yn effeithiol ar gyfer ei boblogaeth. Yn dilyn cydnabyddiaeth gan Lywodraeth Cymru bod Canolbarth Cymru yn ardal gynllunio ddynodedig, cafodd Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth ei drawsnewid i ffurfio Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal ym mis Mawrth 2018.

2. Mae Bwriad Strategol Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cyd-fynd â cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'. Gweledigaeth y Cyd-Bwyllgor yw:

   "Bod mynediad teg yn cael ei ddarparu ar gyfer poblogaeth Canolbarth Cymru i wasanaethau iechyd a gofal integredig, diogel, cynaliadwy, o ansawdd uchel."

3. Mae ardal gorchwyl y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys Powys, Ceredigion a Meirionnydd.

4. Mae aelodaeth Cyd-Bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal yn cynnwys Prif Weithredwyr sefydliadau gofal iechyd partner, sef:

   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
   - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
   - Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
   - Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

5. Ynghyd â chynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol. Cynrychiolwyr Gwynedd ar y Cyd-Bwyllgor yw'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

6. Rôl y Grŵp Craffu yw edrych ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghanolbarth Cymru a materion sy'n effeithio ar bobl sy'n byw yn ardaloedd perthnasol siroedd Ceredigion, Gwynedd a Phowys.

7. Mae'n gyfle i Gynghorwyr y tair sir graffu darpariaeth y gwasanaeth iechyd a gofal, gofyn cwestiynau ynghylch sut mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud, ystyried a ellir cyflwyno gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud argymhellion i'r perwyl hwn.

8. Mae craffu yn chwarae rôl hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y broses o wneud penderfyniadau.

9. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 7 Gorffennaf 2022, enwebwyd y Cynghorwyr Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams a John Pughe i gynrychioli'r pwyllgor ar y Grŵp Craffu.

10. Mae'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams wedi nodi ei ddymuniad i sefyll lawr o'r Grŵp Craffu.

11. Mae aelodau'r Grŵp Craffu yn cael gwahoddiad i gyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor. Cynhelir dau gyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor mewn blwyddyn:

    - Cyfarfod Blynyddol ym mis Ebrill gyda'i brif bwrpas i fod yn gyfarfod cynllunio rhaglen waith y Cyd-Bwyllgor.
    - Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd sydd yn gyfle i arddangos gwaith y Cyd-Bwyllgor ac ymgysylltu gyda phartneriaid ac aelodau'r cyhoedd ar ei waith.

12. Rôl aelodau'r Grŵp Craffu yng nghyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yw arsylwi ac i ofyn cwestiynau o dan yr eitem 'Rydym yn gwrando'. Pe dymunai unrhyw Aelod dderbyn mwy o wybodaeth ar ffurf adroddiad neu gyflwyniad yn dilyn cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor, bydd cyfarfod o'r Grŵp Craffu yn cael ei drefnu a'i gynnal pryd hynny.

**13. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal ethol aelod i gynrychioli'r Pwyllgor ar Grŵp Craffu Cyd-Bwyllgor Iechyd a Gofal Canolbarth Cymru.**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 13 Mehefin 2024 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2024/25 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 i'w mabwysiadu |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 30 Ebrill 2024 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2024/25. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein o ran eu pum prif flaenoriaeth o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw cyn y gweithdy. Y prif flaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o'r ymatebion i'r cwestiwn, oedd:

    1. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Gwynedd<br>
    = Gwasanaeth Gofal Cartref<br>
    = Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan<br>
    = Cynllun Gweithredu Tai<br>
    2. Cyfarfod craffu ychwanegol neu grŵp tasg penodol i graffu y maes tai cymdeithasol yn unig

3. Bu aelodau yn trafod y prif flaenoriaethau yn ogystal â beth yn ychwanegol o'r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2024/25. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:
    - ❖ *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*

- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

4. Blaenoriaethwyd eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

5. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Disgwylir i bob aelod sicrhau eu presenoldeb ar gyfer sesiwn y bore a'r prynhawn.

6. Adnabuwyd yr eitem 'Academi Gofal' fel eitem wrth gefn.

7. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

8. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor.

9. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2024/25.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2024/25

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **13/6/24** | • Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (*Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS*) | Mater ar y gofrestr risg |
| | • Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24 | Sicrwydd o ran y trefniadau diogelu corfforaethol |
| | • Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | | |
| **26/9/24** | • Gwasanaeth Gofal Cartref | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar |
| | • Darpariaeth dementia a thrafnidiaeth i rai sydd gyda dementia i fynychu gofal dydd | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd a Oedolion, Iechyd a Llesiant | Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal |
| | | |
| **21/11/24** | • Cyfarfod penodol i graffu y maes tai cymdeithasol yn unig | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | | |
| **30/1/25** | • Iechyd – pryder am feddygon teulu, iechyd meddwl, perthynas cydweithio rhwng iechyd, gofal a'r gwasanaeth ambiwlans | Pryder yn y gymuned a'r effaith ar drigolion |
| | | |
| **3/4/25** | • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth | Argymhelliad yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Cynllun Gweithredu Tai | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |

**Eitem wrth gefn** - Academi Gofal

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 13 Mehefin 2024 |
| **TEITL** | Cyfarfodydd Herio Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant a Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn.

3. Mae cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

   - Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
   - Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

4. Disgwylir i'r cynrychiolwyr adrodd yn ôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.

5. Mae'r Cynghorydd Sasha Williams wedi sefyll i lawr o fod yn aelod o'r pwyllgor. Roedd yn cynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Felly, mae angen enwebu aelodau i gynrychioli'r pwyllgor yn ei lle yn y cyfarfodydd yma.

6. Yr aelodau arall sydd yn cynrychioli'r pwyllgor yn y cyfarfodydd yma yw:

   - Y Cynghorydd Meryl Roberts yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant;
   - Y Cynghorydd Gwynfor Owen yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Gofal enwebu aelodau i gynrychioli'r pwyllgor yng nghyfarfodydd herio perfformiad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.**